# Cynllunio ar gyfer Cynyddu Mynediad i Ysgolion i Ddisgyblion ag Anableddau

Dyddiad Cyhoeddi: 31 Mawth 2003

Camau i'w Cymryd: **Ymatebion erbyn 31 Mai 2003**

**Dogfen Ymgynghori**

**Rheoli a Llywodraethu Ysgolion**

**Cyfrifoldebau'r AALl**

**www.dysgu.cymru.gov.uk**
**www.learning.wales.gov.uk**

Adran Hyfforddiant ac Addysg
Department for Training and Education

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

**Tu mewn i'r Clawr Blaen**

Rheoliadau Drafft a Chanllawiau am Ddyletswyddau Newydd a osodir ar Awdurdodau Addysg Lleol ac Ysgolion i Gynllunio ar gyfer Cynyddu Mynediad i Ysgolion i Ddisgyblion ag Anableddau.

**Y Gynulleidfa**

Awdurdodau Addysg Lleol yng Nghymru; cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir; perchnogion ysgolion annibynnol; awdurdodau esgobaethol; cyrff gwirfoddol ac eraill sy'n ymdrin â phlant ag anableddau a phlant ag anghenion addysgol arbennig; adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol; byrddau iechyd lleol; undebau athrawon ac undebau llafur eraill sydd ag aelodau mewn ysgolion; cyrff eraill yng Nghymru sy'n ymwneud ag addysg ysgolion.

**Gorolwg**

Mae'r ddogfen hon yn ymgynghori ar y rheoliadau drafft o dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 yn ôl diwygiad Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 ac ar ganllawiau drafft perthynol. Mae'r rheoliadau a'r canllawiau yn ymwneud â dyletswyddau AALl i weithredu strategaethau hwyluso mynediad a dyletswyddau ysgolion i gynllunio ar gyfer gwella mynediad i ddisgyblion ag anableddau. Rhagwelir y bydd y dyletswyddau newydd yn dod i rym ar 1 Medi 2003 ac y dylai'r cynlluniau cyntaf am gyfnod o 3 blynedd fod yn eu lle ar gyfer 1 Ebrill 2004.

**Y camau sydd angen eu cymryd**

Gwahoddir ymatebion i'r ddogfen ymgynghori hon erbyn 31 Mawrth 2003. Gellir anfon ymatebion i'r cyfeiriad isod neu'n electronig at david.slade@wales.gsi.gov.uk

Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi. Fel rheol, mae enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr awdur yn cael eu cyhoeddi ynghyd â'r ymateb. Os nad ydych eisiau cael eich enwi dywedwch hynny'n glir yn eich ymateb, os gwelwch yn dda.

**Gwybodaeth bellach**

Cyfeiriwch ymholiadau pellach at Mr David Slade, Ffôn: 029 20826066, E-bost: david.slade@wales.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol**

Gellir cael copïau ychwanegol oddi wrth Miss Jane Burfitt, Ffôn: 029 20826068 neu ar wefan y Cynulliad dysgu.cymru.gov.uk.

**Dogfennau cysylltiedig**

Y Comisiwn Hawliau Anabledd: Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd rhan 4 – Cod Ymarfer i Ysgolion

Cod Ymarfer AAA Cymru

Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 20/97 – Beth mae'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd yn ei olygu i ysgolion ac AALl

Cyfeiriad ar gyfer dychwelyd sylwadau: Yr Is-adran Rheolaeth Ysgolion 1b
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

**Crynodeb**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gwahodd sylwadau am reoliadau drafft a chanllawiau drafft sy'n ymwneud â'r dyletswyddau a osodir ar awdurdodau addysg lleol (AALl) ac ysgolion (ysgolion a gynhelir ac ysgolion annibynnol) i gynllunio a gweithredu ar gyfer gwella mynediad i ddisgyblion ag anableddau. Mae'r dyletswyddau newydd yn hawlio bod:

- AALl yn sefydlu strategaethau hwyluso mynediad
- Ysgolion yn sefydlu cynlluniau hwyluso mynediad

Rhaid i'r strategaethau a'r cynlluniau ymdrin â:

- chynyddu'r graddau y mae disgyblion anabl yn gallu cymryd rhan yn y cwricwlwm ysgol ac mewn gweithgareddau megis clybiau all-ysgol, digwyddiadau hamdden a chwaraeon a theithiau ysgol
- gwella amgylchedd ffisegol yr ysgol i blant ag anableddau
- gwella'r modd mae gwybodaeth ysgrifenedig a roddir i ddisgyblion heb anableddau yn cael ei chyflwyno i ddisgyblion ag anableddau.

Disgwylir i'r dyletswyddau newydd ddod i rym ar 1 Medi 2003 a bydd raid i AALl ac ysgolion gael strategaethau a chynlluniau hwyluso mynediad yn barod i'w gweithredu erbyn 1 Ebrill 2004 am y cyfnod 3 blynedd hyd at 31 Mawrth 2007.

Mae Adran 1 o'r canllawiau drafft yn rhoi cyflwyniad cyffredinol.

Mae Adran 2 yn ymdrin â'r safbwynt cyfreithiol a'r berthynas rhwng y dyletswyddau newydd a chyfrifoldebau statudol eraill sydd ar ysgwyddau AALl ac ysgolion yn rhinwedd deddfwriaeth anghenion addysg arbennig (AAA) ac agweddau eraill o Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 (DGA).

Mae Adran 3 yn cyflwyno'r ddyletswydd cynllunio sydd gan AALl ac ysgolion.

Mae Adran 4 yn ymdrin â datblygu strategaeth hwyluso mynediad Awdurdodau Addysg Lleol.

Mae Adran 5 yn ymdrin â datblygu cynllun hwyluso mynediad ysgolion.

Mae Adran 6 yn ymdrin â chyllido cynlluniau, monitro drwy arolygiadau Estyn a chamau cywiro os bydd AALl neu gorff llywodraethu ysgol a gynhelir yn gweithredu'n afresymol wrth gyflawni ei swyddogaeth cynllunio neu'n methu cyflawni ei gyfrifoldeb.

Mae Adran 7 yn cynnwys rheoliadau drafft sy'n rhagnodi bod raid i'r strategaethau a'r cynlluniau mynediad cyntaf gwmpasu cyfnod o 3 blynedd o 1 Ebrill 2004 i 31 Mawrth 2007 gyda strategaethau a chynlluniau pellach i'w paratoi bob tair blynedd, a phob un yn cwmpasu cyfnod 3 blynedd wedi hynny.

Mae'r ddogfen ymgynghori yn cynnwys proforma sydd i'w defnyddio ar gyfer ymateb. Gellir dychwelyd ymatebion mewn copi caled neu yn electronig.

**CYNLLUNIO AR GYFER CYNYDDU MYNEDIAD I YSGOLION I DDISGYBLION AG ANABLEDDAU**

| **Cynnwys** | **Rhif paragraff** |
|---|---|
| Canllawiau Drafft | |
| Adran 1 - Cyflwyniad | 1.1 – 1.6 |
| Adran 2 - Y Sefyllfa Gyfreithiol | 2.1 – 2.16 |
| Adran 3 - Y Ddyletswydd Cynllunio | 3.1 – 3.30 |
| Adran 4 - Sut i ddatblygu strategaeth hwyluso mynediad : AALl | 4.1 – 4.17 |
| Adran 5 - Sut i ddatblygu cynllun hwyluso mynediad: ysgolion | 5.1 – 5.17 |
| Adran 6 - Adnoddau, Arolygu a Chamau Cywiro | 6.1 – 6.9 |
| Adran 7 - Rheoliadau Drafft | |
| Atodiadau A | |
| Atodiadau B | |
| Atodiadau C | |
| Atodiadau D | |

**ADRAN 1**

**CYFLWYNIAD**

1.1 Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau i awdurdodau addysg lleol (AALl) ac ysgolion am eu dyletswydd yn Rhan IV Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Anghenion Addysg Arbennig ac Anabledd 2001) i gynllunio i gynyddu fwyfwy yr hwylustod mynediad i ysgolion i ddisgyblion ag anableddau (y ddyletswydd cynllunio). Bwriedir gweithredu'r ddyletswydd hon ar 1 Medi 2003 gyda strategaethau hwyluso mynediad yr AALl a chynlluniau hwyluso mynediad yr ysgolion i fod yn eu lle erbyn 1 Ebrill 2004.

1.2 Mae gwella mynediad at addysg i ddisgyblion ag anableddau yn elfen allweddol o gyflawni cyfrifoldeb statudol y Cynulliad Cenedlaethol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1988 i weithredu ei swyddogaethau o ran darparu cyfleoedd cyfartal i bawb. Felly, mae'n dymuno bod pobl ag anableddau yn mwynhau cyfranogi'n llawn mewn cymdeithas, yn byw'n annibynnol ac yn hunan gynhaliol yn ariannol.

1.3 Nid yw hwyluso mynediad i ysgolion yn golygu dileu rhwystrau yn unig. Mae'n golygu cynyddu mynediad yn yr ystyr ehangach, i sicrhau bod addysgu a dysgu yn hollol gyraeddadwy i bob disgybl. Mae'r ddyletswydd cynllunio yn cynnwys tri llinyn fel y nodwyd yn Adran 28D Deddf AAA ac Anabledd 2001:

- cynyddu'r graddau y mae disgyblion anabl yn gallu cymryd rhan yn y cwricwlwm ysgol;
- gwella amgylchedd ffisegol yr ysgolion a;
- gwella'r modd mae gwybodaeth ysgrifenedig a roddir i ddisgyblion heb anableddau yn cael ei chyflwyno i ddisgyblion ag anableddau.

Bydd y ddyletswydd cynllunio yn helpu AALl ac ysgolion i wella mynediad i ddisgyblion ag anableddau mewn modd bwriadol a strategol a thrwy hynny alluogi disgyblion ag anableddau i ddatblygu eu potensial llawn yn unol â'r egwyddorion a nodwyd yn Y Wlad sy'n Dysgu.

1.4 Mae'r ddogfen hon yn cyd-fynd â'r Cod Ymarfer i Ysgolion a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Hawliau Anabledd ar 8 Gorffennaf 2002 ac a ddaeth i rym ar 1 Medi 2002; a Chod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) Cymru, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2002.

**Sut mae cynllunio yn helpu'r sefydliad**

1.5 Wrth gynllunio ar gyfer anghenion disgyblion ag anableddau a darpar ddisgyblion, mae angen i ysgolion gofio bod gwella mynediad i ddisgyblion ag anableddau yn gallu gwella mynediad i staff, rhieni ac aelodau'r cyhoedd ag anableddau hefyd. Bydd hyn yn helpu ysgolion ac AALl i gyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol o dan Rannau 1 a 111 DGA sydd wedi bod yn berthnasol gam wrth gam i ysgolion ac AAA ers 1996.

1.6 Mae gan 8.5m o bobl yn y DU anabledd o fewn diffiniad y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (DGA). Mae cynllunio ar gyfer cynnwys disgyblion ag anableddau yn helpu i roi cyfle cyfartal i'r grŵp hwn ac yn helpu ysgolion i ddarparu yn llawnach ar gyfer anghenion eu cymunedau lleol. Bydd llawer o addasiadau a newidiadau i wella mynediad o fudd i blant ac oedolion heb anabledd hefyd. Er enghraifft, mae systemau Soundfield a thriniaeth acwstig i fannau addysgu yn gallu gwella amodau gwrando i bob disgybl.

## ADRAN 2

## Y SEFYLLFA GYFREITHIOL

### Diffinio Anabledd

2.1 Mae DGA yn diffinio unigolyn anabl fel "unigolyn â nam corfforol neu feddyliol sydd yn cael effaith niweidiol sylweddol a thymor hir ar ei allu ef neu hi i gyflawni gweithgareddau bob dydd arferol."

2.2 Mae nam corfforol neu feddyliol yn cynnwys namau ar y synhwyrau (fel y rhai sy'n effeithio ar y golwg a'r clyw) ac anableddau dysgu. Mae'r diffiniad hefyd yn cynnwys rhai cyflyrau meddygol pan fydd ganddynt effaith sylweddol a thymor hir ar fywyd pob dydd yr unigolyn. Gall iechyd meddwl fod yn gynwysedig hefyd. Rhoddir gwybodaeth bellach yn Atodiad 1 Cod Ymarfer i Ysgolion y Comisiwn Hawliau Anabledd ac yng nghyhoeddiad DfEE, *Canllawiau am y materion sydd raid eu hystyried wrth benderfynu ar gwestiynau mewn perthynas â diffiniad o anabledd*. (gweler Atodiad A).

### Gorolwg o'r ddeddfwriaeth sy'n cefnogi disgyblion ag anableddau

2.3 Mae tri phrif linyn o'r gyfraith yn cefnogi disgyblion ag anableddau yn yr ysgol:

- Fframwaith AAA (Rhan IV Deddf Addysg 1996);
- Dyletswyddau gwahaniaethu ar sail anabledd (adrannau 28A -28C, 28F, 28G, 28K, 28L o Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995); a
- Dyletswyddau cynllunio (adrannau 28D -28E o Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995)

### Y fframwaith AAA

2.4 Pwrpas y fframwaith AAA yw diwallu anghenion addysgol arbennig plant unigol, y gall rhai o'u plith fod yn anabl, sydd angen darpariaeth ychwanegol, neu wahanol, i'r ddarpariaeth sydd ar gael fel arfer yn yr ysgolion a gynhelir gan yr AALl. O dan y fframwaith hwn mae angen i'r ysgolion a'r AALl adnabod anghenion addysgol y plant mor gynnar ag sydd bosib; asesu'r anghenion hynny'n ofalus; a darparu'n benodol, un ai drwy'r ysgolion yn unig neu gydag ymyriad yr AALl ar ffurf datganiad, i'w galluogi i ddysgu a chyflawni. Mae'r fframwaith AAA hefyd yn sicrhau bod cynnydd y plant yn cael ei fonitro a'i adolygu fel bo'r ddarpariaeth a wneir ar eu cyfer yn diwallu eu hanghenion. Mae Cod Ymarfer AAA Cymru yn rhoi canllawiau i ysgolion ac AALl ar y fframwaith AAA.

2.5 Rhaid i blant sydd â datganiadau o anghenion addysgol arbennig gael eu haddysgu mewn ysgolion prif ffrwd oni bai fod hyn yn groes i ewyllys y rhieni neu'n anghydnaws ag addysg effeithlon i blant eraill. Am y rhesymau hyn yn unig y gellir gwrthod addysg prif ffrwd yn llwyr. Os mai'r ail reswm a roddir, rhaid i ysgolion ac AALl ddangos nad oes camau rhesymol y gellid eu cymryd i rwystro'r anghydnawsedd hwnnw. Bydd cynllunio i gynyddu mynediad i ddisgyblion ag anableddau yn helpu plant sydd â datganiadau o AAA.

**Dyletswyddau Gwahaniaethu ar sail Anabledd**

2.6 Mae gan ysgolion ac AALl gyfrifoldebau statudol o dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. Mae rhannau II a III o'r DGA a'r rhan IV gwreiddiol wedi bod yn berthnasol i ysgolion, mewn camau, o 1996. Mae'r dyletswyddau hyn yn effeithio ar ysgolion ac AALl o ran cyflogi staff a darparu gwasanaethau an-addysgol i'r cyhoedd, yn cynnwys gwasanaethau i rieni.

2.7 Ers Medi 2002, bu'n anghyfreithlon i ysgolion ac AALl wahaniaethu yn erbyn disgyblion ag anableddau yn eu trefniadau ar gyfer derbyniadau a gwaharddiadau ac ar gyfer darparu addysg a gwasanaethau cysylltiedig. Rhaid i ysgolion ac AALl:

- beidio â thrin disgyblion ag anableddau yn llai ffafriol na disgyblion eraill; a
- chymryd camau rhesymol i osgoi rhoi disgyblion ag anableddau o dan anfantais sylweddol (y ddyletswydd "addasiad rhesymol').

2.8 Ar 28 Awst 2002 cymeradwyodd y Senedd y Cod Ymarfer a gynhyrchwyd gan y Comisiwn Hawliau Anabledd (CHA) i egluro ac enghreifftio'r dyletswyddau gwahaniaethu ar sail anabledd. Mae'r Cod yn berthnasol i Gymru a Lloegr. Mae'r Cod yn egluro terminoleg fel 'sylweddol' a 'rhesymol'.

**Y Ddyletswydd Cynllunio ar AALl ac Ysgolion**

2.9 Unwaith bydd adran 28D o'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 yn weithredol yng Nghymru, bydd gan AALl ddyletswydd i gynllunio'n strategol i gynyddu hwylustod mynediad i bob un o'u hysgolion dros amser, yn cynnwys unedau cyfeirio disgyblion ac ysgolion meithrin a gynhelir. Bydd Adran 28D hefyd yn gosod dyletswydd ar y cyrff sy'n gyfrifol am ysgolion i gynllunio i gynyddu hwylustod mynediad i'w hysgolion. Y corff cyfrifol am bob math o ysgol yw:

| | |
|---|---|
| Ysgol a gynhelir ar wahân i ysgol feithrin | Corff llywodraethu |
| Uned Cyfeirio Disgyblion | Yr Awdurdod Addysg Lleol |
| Ysgol Feithrin | Yr Awdurdod Addysg Lleol |
| Ysgol Annibynnol | Y perchennog* |
| Ysgol arbennig nas cynhelir gan AALl | Y perchennog* |

* Mae Deddf Addysg 1996 yn dweud mai'r perchennog yw unigolyn neu grŵp o bobl sy'n gyfrifol am reolaeth yr ysgol. Bydd hyn yn amrywio yn ôl math yr ysgol ond byddai'n cynnwys yr ymddiriedolwyr, y corff llywodraethol, y perchennog preifat neu grŵp rheoli'r ysgol.

Mae cyfeiriadau yn y canllawiau hyn at 'yr ysgol' yn golygu'r corff sy'n gyfrifol am yr ysgol.

2.10 Bydd gan AALl ac ysgolion ddyletswydd, y naill i baratoi strategaethau hwyluso mynediad a'r llall i baratoi cynlluniau hwyluso mynediad. Strategaeth neu gynllun hwyluso mynediad yw strategaeth neu gynllun ar gyfer:

(a) cynyddu'r graddau y mae disgyblion ag anableddau yn gallu cymryd rhan yn y cwricwlwm ysgol;

(b) gwella amgylchedd ffisegol yr ysgol i gynyddu'r graddau y mae disgyblion ag anableddau yn manteisio ar addysg a gwasanaethau cysylltiedig mewn ysgolion; a

(c) gwella'r modd mae gwybodaeth ysgrifenedig a roddir i ddisgyblion heb anableddau yn cael ei chyflwyno i ddisgyblion ag anableddau.

2.11 Mae strategaeth AALl yn cyflwyno ei chynlluniau ar gyfer gwella mynediad i ysgolion a gynhelir gan yr AALl a darpariaeth addysg feithrin a gynhelir yn ei ardal. Mae cynllun mynediad ysgol yn cyflwyno sut mae ysgol yn bwriadu gwella'r mynediad i ddisgyblion ag anableddau.

2.12 Cynigir bod dyletswyddau cynllunio ar gyfer AALl ac ysgolion yng Nghymru yn dechrau ar 1 Medi 2003 a bod rheoliadau a wnaed gan y Cynulliad o dan adran 28D o'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd yn hawlio bod strategaethau hwyluso mynediad a chynlluniau hwyluso mynediad yn eu lle erbyn 1 Ebrill 2004, i gynnwys cyfnod o 3 blynedd h.y. hyd at 31 Mawrth 2007. Bydd gan AALl ac ysgolion ddyletswydd i adolygu strategaethau a chynlluniau, a'u hadolygu os oes angen, a chynhyrchu cynlluniau newydd bob 3 blynedd.

2.13 Mae DGA yn darparu ar gyfer arolygu AALl ac ysgolion mewn perthynas â chyflawni eu cyfrifoldebau i baratoi, adolygu, arolygu a gweithredu eu strategaethau neu eu cynlluniau ac mewn perthynas â chynllun hwyluso mynediad ysgol, i fwrw golwg ar gyhoeddiad y cynllun. Bydd Estyn yn monitro gweithrediad yr AALl ac ysgolion o'u dyletswyddau cynllunio yn ystod ymweliadau ac arolygon AALl ac ysgolion.

2.14 Mae'r ddyletswydd cynllunio yn cynnwys pob 'addysg a gwasanaethau cysylltiedig' a ddarperir gan ysgolion. Mae'n cynnwys y cwricwlwm, gweithgareddau sy'n ymestyn y cwricwlwm, amser egwyl ac amser cinio, a chwaraeon ysgol.

2.15 Rhaid i AALl weithredu eu strategaethau hwyluso mynediad a rhaid iddynt roi sylw i'r angen i neilltuo adnoddau digonol i'w gweithredu. Yn yr un modd rhaid i ysgolion roi eu cynlluniau gweithredu ar waith a rhoi sylw i'r angen i neilltuo adnoddau digonol i'w gweithredu.

**Statws y canllawiau hyn**

2.16 Mae'r canllawiau hyn yn rhai ymgynghorol ar wahân i'r elfennau hynny sy'n ymdrin â'r

- ffurf y cynhyrchir strategaeth hwyluso mynediad AALl (para 4.2);
- y bobl mae'n rhaid ymgynghori â hwy wrth baratoi strategaeth mynediad (para 4.12); a
- chadw'r strategaeth o dan arolygiaeth ac, os oes angen, ei hadolygu (para 4.15-4.17).

Mae DGA yn hawlio bod AALl yn rhoi sylw i'r canllawiau hyn mewn perthynas â'r materion hyn.

**C1** *A yw adran 2 y canllawiau drafft yn egluro cyfrifoldebau cyfreithiol AALl ac ysgolion i gynllunio ar gyfer gwella mynediad i ddisgyblion ag anableddau yn ddigon clir? Os nad yw, beth sydd eisiau ei ychwanegu?*

**C2** *A yw'r adran yn egluro'n ddigonol y berthynas rhwng y cyfrifoldebau a nodir mewn deddfwriaeth AAA a chyfrifoldebau eraill o dan y DGA sydd yn eu lle yn barod? Os nad yw, beth sydd angen ei ychwanegu?*

**C3** *A yw'r amserlen ar gyfer gweithredu'r ddyletswydd cynllunio yn ymarferol?*

**C4** *A yw'r cyfnod 3 blynedd ar gyfer cynlluniau yn briodol? Os nad yw, am ba gyfnod y dylent fod?*

## ADRAN 3

## Y DDYLETSWYDD CYNLLUNIO

3.1 Mae'r adran hon yn egluro gwahanol ddyletswyddau AALl ac ysgolion o dan y ddyletswydd cynllunio a'r cysylltiadau rhwng AALl ac ysgolion a gynhelir wrth gynllunio.

3.2 Dylai AALl ac ysgolion weithio mewn partneriaeth i gynhyrchu strategaethau a chynlluniau hwyluso mynediad, rhannu gwybodaeth ac arbenigedd. Dylent gynnwys pobl a sefydliadau ag arbenigedd perthnasol fel gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd, mudiadau gwirfoddol sy'n cynrychioli plant a phobl ifanc ag anableddau, rhieni a phlant ag anableddau eu hunain.

## CYNYDDU'R GRADDAU Y MAE DISGYBLION AG ANABLEDDAU YN GALLU CYMRYD RHAN YN Y CWRICWLWM YSGOL

3.3 Mae'r cwricwlwm yn cynnwys addysgu a dysgu a'r ddarpariaeth ehangach sy'n cwmpasu clybiau all-ysgol; gweithgareddau hamdden, chwaraeon a diwylliannol; a theithiau ysgol. Mae cynllunio ar gyfer gwella mynediad at y cwricwlwm yn cynnwys rhoi sylw i drefniadaeth a chefnogaeth ysgol a dosbarth, trefnu'r amserlen, dewisiadau cwricwlwm, defnydd staff a gwybodaeth a hyfforddiant i staff.

3.4 Mae'n bwysig fod AALl ac ysgolion yn cynllunio mynediad at y cwricwlwm ar lefel 'ysgol gyfan'. Mae llawer o'r rhwystrau sy'n atal mynediad at y cwricwlwm yn debyg i grwpiau o blant ac mae'n ddefnyddiol edrych yn strategol ar ddileu'r rhwystrau hyn. Bydd y llinyn hwn o'r ddyletswydd cynllunio o fudd i ddisgyblion ag anableddau a darpar ddisgyblion ag amrywiaeth o anghenion yn cynnwys y rhai ag anableddau dysgu.

### Rôl yr Awdurdod Addysg Lleol

3.5 Dylai strategaethau hwyluso mynediad yr AALl ganolbwyntio ar helpu ysgolion i gynyddu mynediad at y cwricwlwm i blant ag anableddau drwy sicrhau hyfforddiant staff priodol ac annog ysgolion i gydweithio a rhannu arfer da. Dylai AALl nodi'r gefnogaeth sydd ei hangen ar ysgolion a gynhelir i wneud y cwricwlwm yn gyraeddadwy a chynllunio yn unol â hynny. Dylai AALl sicrhau bod eu hysgolion yn ymwybodol o'u gwasanaethau cefnogi i athrawon ar dechnegau a strategaethau addysgu, rheolaeth dosbarth a deunydd cwricwlwm. Gallant roi cefnogaeth ar gyfer datblygu cwricwlwm; addysgu'n uniongyrchol neu roi cefnogaeth ymarferol i athrawon dosbarth; help arbenigol rhan amser, neu fynediad at gymorth cefnogi dysgu. Dylai cyngor fod ar gael hefyd gan staff arbenigol yr AALl ei hun e.e. seicolegwyr addysgol ac athrawon arbenigol.

Gallai strategaeth AALl gyflwyno sut mae'n bwriadu gweithio gydag awdurdodau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarparu gwybodaeth a hyfforddiant i athrawon a staff cefnogi am oblygiadau addysgol gwahanol anableddau ac am reolaeth anghenion iechyd neilltuol yn y dosbarth. Gallai'r strategaeth gyflwyno'r cynlluniau i greu gwefan i athrawon, defnydd staff iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn yr ardal, ac annog cydweithio i gynyddu i'r eithaf fynediad disgyblion ag anableddau i'r cwricwlwm a bywyd yr ysgol yn llawn. Gallai gwefan annog cyfnewid gwybodaeth am arfer da ac am brofiadau athrawon yn gweithio gyda disgyblion ag anableddau mewn ysgolion. Gallai'r strategaeth gynnwys cynlluniau i gynnal seminarau a digwyddiadau hyfforddi yn rheolaidd ar gyfer ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig i rannu arfer da a rhannu gwybodaeth ac arbenigedd.

**C5** *A oes unrhyw faterion eraill mewn perthynas â mynediad at y cwricwlwm y gallai strategaethau AALl eu cynnwys?*

**Rôl yr ysgol**

3.6 Mae ysgolion yn gyfrifol am ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys i bob disgybl ac am gynllunio i gynyddu mynediad at y cwricwlwm i ddisgyblion ag anableddau. Wrth ganolbwyntio ar y rhan hon o'r ddyletswydd, dylai ysgolion nodi yr holl ddisgyblion a'r darpar ddisgyblion hysbys sy'n wynebu rhwystrau i ddysgu a chyfranogaeth lawn. Er bod plant ag anableddau dysgu yn wynebu rhai o'r rhwystrau mwyaf mewn perthynas â mynediad at y cwricwlwm, bydd gan y rhan fwyaf o blant o'r fath fynediad at y cwricwlwm eisoes drwy'r fframwaith AAA yn cynnwys darpariaeth drwy ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig.

3.7 Mae'r dogfennau canlynol yn arfau defnyddiol i wneud y cwricwlwm yn gyraeddadwy i ddisgyblion ag anableddau:

- Mae Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru, a gyflwynwyd ym Medi 2000, yn cynnwys datganiad am fynediad i bob disgybl. Mae'n pwysleisio'r angen i'r Rhaglenni Astudio ar gyfer pob cyfnod allweddol gael eu haddysgu i ddisgyblion mewn ffyrdd sydd yn briodol i'w haeddfedrwydd a'u gallu cynyddol.

- Mae ACCAC wedi cyhoeddi'r canllawiau canlynol:

  - *Agrymiadau ymarferol ar gyfer Asesu Disgyblion sy'n Gweithio tuag at Lefel 1.*
  - *Strwythur ar gyfer Llwyddiant: Canllawiau ar y Cwricwlwm Cenedlaethol ac Anhwylder Sbectrwm Awtistig*
  - *Disgyblion Herfeiddiol: Galluogi Mynediad – Diwallu Anghenion*
  - *Disgyblion gydag Anawsterau Ymddygiad ac Emosiwn*
  - *Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth yn y Cwricwlwm Ysgol yng Nghymru Canolbwyntio ar Gyflawniad – Canllawiau ar gynnwys disgyblion gydag Anghenion Ychwanegol wrth Osod Targedau Ysgol Gyfan.*

- Hefyd, mae'r Awdurdod Cymwysterau a Cwricwlwm yn Lloegr wedi cyhoeddi canllawiau cyffredinol a phynciol am gynllunio, addysgu ac asesu'r cwricwlwm i blant ag anawsterau dysgu. Mae'r llyfrynnau hyn yn adnoddau gwerthfawr ond dylai ysgolion gofio am y gwahaniaethau yn y gorchmynion pwnc yng Nghymru. Bydd ACCAC yn cyhoeddi arweiniad am ddefnydd y canllawiau hyn a chanllawiau pellach am fynediad i'r Fframwaith ABCh yng Nghymru yn ystod 2003-04.

3.8 Gall ysgolion ddefnyddio'r dogfennau hyn i ddatblygu archwiliadau cwricwlwm sy'n adolygu patrymau cyflawniad a chyfranogaeth plant ag anableddau mewn gwahanol feysydd o'r cwricwlwm, e.e. cynnwys plant ag anableddau corfforol mewn Addysg Gorfforol. Mae arfau archwilio eraill yn cynnwys y "Rhestr Gymhwyso" sydd yn set o ddeunyddiau i gefnogi ysgolion mewn proses ddatblygu gynhwysol.

3.9 Gall ysgolion ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau wrth gynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm. Er enghraifft:

- Trefniadau grwpiau sy'n galluogi disgyblion ag anableddau i weithio gyda'u cyfoedion.
- Trefniadau cefnogaeth cyfoedion fel cyfeillio, mentora neu "gylch o ffrindiau" sy'n cynllunio ffyrdd i helpu'r disgybl sydd ag anabledd gael mynediad at y cwricwlwm a'r cyfleoedd cymdeithasol a ddarperir gan yr ysgol.
- Banc adnoddau o syniadau a chynlluniau gwersi; defnyddio'r gefnogaeth ar gyfer mynediad at y cwricwlwm a gynigir gan eu AALl ac fel yr amlinellir yn strategaeth hwyluso mynediad AALl.

3.10 Dylai ysgolion ystyried anghenion hyfforddi staff hefyd.

| |
|---|
| Gallai cynllun ysgol nodi nifer o flaenoriaethau ar gyfer gwella mynediad at y cwricwlwm. Gallai ganolbwyntio ar gyfres o weithgareddau datblygu staff, fel cysylltu ag ysgolion eraill yn yr ardal i ddatblygu a rhannu arfer da, a hyfforddiant staff; gallai gynllunio i wella sianelau cyfathrebu rhwng disgyblion ag anableddau a staff, yn cynnwys sefydlu fforwm disgyblion; a gallai osod cynlluniau ar gyfer gwasanaethau ysgol gyfan, i edrych ar anabledd a mynediad. |

**C6** *A oes unrhyw faterion eraill mewn perthynas â mynediad at y cwricwlwm y gellid eu cynnwys mewn cynlluniau ysgol?*

## GWELLA AMGYLCHEDD FFISEGOL YR YSGOL AR GYFER DISGYBLION AG ANABLEDDAU

3.11 Mae'r llinyn hwn o'r ddyletswydd cynllunio yn cynnwys gwelliannau i amgylchedd ffisegol yr ysgol a chymhorthion corfforol i gael mynediad i addysg.

3.12 Mae'r amgylchedd ffisegol yn cynnwys stepiau, grisiau, ymylon palmant, arwynebau a phalmentydd allanol, mannau parcio, mynedfeydd ac allanfeydd adeiladau (yn cynnwys allanfeydd brys), drysau mewnol ac allanol, clwydiau, cyfleusterau ymolchi a thoiledau, golau, gwres, awyru, lifftiau, gorchuddion lloriau, arwyddion, arwynebau mewnol, addurniadau ystafelloedd a dodrefn. Mae gwelliannau i'r mynediad ffisegol yn cynnwys rampiau, canllawiau, lifftiau, drysau wedi'u lledu, drysau electromagnetig, toiledau wedi'u haddasu a chyfleusterau ymolchi, golau cymwysadwy, llenni, dolennau anwytho, acwsteg ystafelloedd wedi ei gynllunio'n dda (goddefol) a systemau canfod cyfeiriad. Gall darparu mannau "tawel" a gwella diogelwch ffisegol yr amgylchedd, y tu mewn a'r tu allan, wella mynediad i blant ag anableddau dysgu.

3.13 Rhaid i'r holl adeiladau ysgol yng Nghymru gydymffurfio â Safonau Adeiladu ar gyfer Adeiladau Ysgolion yng Nghymru, Cylchlythyr CCC 03/02, sy'n cynnwys safonau ar gyfer mynediad i'r anabl. Gellir gwella mynediad mewn adeiladau sy'n bodoli'n barod drwy ail-drefnu ystafelloedd, symud rhwystrau o lwybrau cerdded, newid trefn dosbarthiadau, darparu mannau storio penodedig neu ailbennu ystafelloedd i arbenigaethau pynciau neilltuol.

3.14 Ni ddylai gwella mynediad i adeiladau ysgolion sydd o bwys hanesyddol neu bensaerniol gael ei drin mewn ffordd wahanol. Fodd bynnag rhaid i newidiadau gydymffurfio â rheoliadau adeiladu. Gall cyrff megis CADW roi canllawiau ar sut i gyflawni hyn. Gydag adeilad cofrestredig neu adeilad mewn ardal gadwraeth rhaid i bob gwaith adeiladu, mawr a bach, gael caniatâd cynllunio.

3.15 Mae cymhorthion corfforol i gael mynediad at addysg yn cynnwys cyfarpar TGCh, desgiau, cadeiriau, offer ysgrifennu, cyfarpar gwyddoniaeth a thebyg. Mae esiamplau o welliannau yn cynnwys sgriniau a bysellfyrddau cyfrifiadurol mawr, cyffyrddellau, switsys, cyfleusterau helaethu llungopïau, desgiau a chadeiriau arbenigol a chymhorthion cludadwy i blant ag anawsterau cydsymud a sgiliau llaw/llygaid gwael megis llestri gwydr cryf ar gyfer gwyddoniaeth a phinnau a phensiliau arbenigol.

3.16 Mae gwahaniaeth rhwng cymhorthion a ddarperir drwy'r fframwaith AAA a'r rhai a ddarperir drwy'r ddyletswydd cynllunio. Y gwahaniaeth rhwng cymhorthion a gwasanaethau atodol a ddarperir drwy'r llwybr AAA a'r rhai a ddarperir gan y ddyletswydd cynllunio yw bod y dyletswyddau AAA yn ymwneud â'r unigolyn, tra bo'r ddyletswydd cynllunio yn ymwneud â phoblogaeth (a darpar boblogaeth) yr ysgol. Er enghraifft, gall disgybl sydd â nam ar ei olwg gael cymhorthion golwg gwael wedi'u darparu drwy ddatganiad AAA ond gallai'r ysgol fel mesur cyffredinol ddarparu llenni a golau cymwysadwy drwy'r ddyletswydd cynllunio.

## Rôl yr Awdurdod Addysg Lleol

3.17 Mae AALl eisoes yn chwarae rhan hanfodol o ran hwyluso mynediad corfforol i ysgolion cymunedol, ysgolion gwirfoddol a reolir ac i raddau helaeth, ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir i blant ag anableddau. Maent yn rheoli eiddo cyfalaf ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir, ac maent wedi'u cysylltu'n glos â'r trefniadau ar gyfer gwella adeiladau ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir. Mae awdurdodau lleol yn paratoi asesiadau cyflwr, priodoldeb a digonolrwydd o'u hadeiladau ysgol fel rhan o'r paratoadau ar gyfer Cynlluniau Rheoli Asedau (CRhA) am eu holl asedau cyfalaf. Dylai CRhA fod yn eu lle ym mhob awdurdod erbyn 2004. Y rhain fydd yr arfau allweddol y bydd awdurdodau yn eu defnyddio ar gyfer blaenoriaethu buddsoddiad.

3.18 Mae'r ddyletswydd cynllunio yn hawlio bod AALl yn ymdrin yn strategol â chynllunio ar gyfer cynyddu mynediad i'r anabl i bob ysgol a gynhelir ar draws eu hardaloedd. I gyflawni hyn, mae angen data da ar AALl am hwylustod mynediad i'w hysgolion, yn deillio o'r asesiadau priodoldeb CRhA. Ble nad oes gan AALl wybodaeth glir am fynediad i'w hysgolion, dylent wneud archwiliad mynediad er mwyn adnabod pob perygl a rhwystr i fynediad.

3.19 Dylai AALl gynllunio i gysylltu prosiectau mynediad â phob gwaith adeiladu cyfalaf ble bo hynny'n briodol. Er enghraifft, wrth adnewyddu adeiladau ysgol, dylai AALl ystyried a ellid cynnwys cymhorthion mynediad corfforol, fel rampiau neu ganllawiau neu gynlluniau addurno yn y cynllun.

| |
|---|
| Ar ôl gwneud archwiliad o hwylustod mynediad i'w hysgolion a phlotio anghenion tybiedig darpar ddisgyblion ag anableddau ar system fapio, gall AALl benderfynu mabwysiadu strategaeth ble mae disgyblion ag anableddau yn mynychu eu hysgolion lleol ble bynnag y bo hynny'n bosib. Mae'r AALl yn cynllunio i wneud newidiadau ffisegol i nifer o ysgolion cymunedol dros gyfnod o dair blynedd.<br>Gall AALl benderfynu gwella mynediad i ganran uchel o'i ysgolion uwchradd, yn enwedig ble bo'r ysgol yr unig ddarparwr uwchradd dros ardal eang neu'r unig ddarparwr cyfrwng Cymraeg. Gall strategaeth yr AALl gynnwys o leiaf un prosiect ysgol uwchradd mawr y flwyddyn, wedi'i flaenoriaethu yn ôl yr angen.<br>Gall AALl gynllunio i osod mainc wyddoniaeth a/neu fainc CDT codi a gostwng mewn un ysgol uwchradd ym mhob ardal.<br>Gall AALl, gyda chymorth arbenigedd therapydd galwedigaethol, sefydlu canolfan adnoddau ar gyfer dodrefn arbenigol yn cynnwys desgiau ar ogwydd, seddau hybu a seddau arbenigol. |

**C7** *A oes materion eraill yn ymwneud â mynediad corfforol y gallai strategaeth AALl eu cynnwys?*

**Rôl ysgolion a gynhelir**

3.20 Tra bo AALl, ac eithrio yn achos ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, yn ymgymryd â'r gwaith cyfalaf mewn ysgolion a gynhelir, ac yn ei ariannu, nid yw hynny'n golygu y dylai ysgol aros i'w AALl hwyluso mynediad i'w safle. Dylai ysgolion ystyried beth allant ei wneud i wella mynediad at amgylchedd ffisegol yr ysgol o fewn yr adnoddau sydd ar gael iddynt ac ystyried hwylustod mynediad yn eu holl benderfyniadau prynu.

| |
|---|
| Enghraifft: gall ysgol osod rampiau a chanllawiau ym mynedfa'r ysgol; symud labordy wyddoniaeth a/neu'r llyfrgell i'r llawr isaf; gosod tapiau bar i'r sinciau yn y labordai gwyddoniaeth, ystafelloedd technoleg bwyd a chelf; gosod system Soundfield i roi "sŵn ym mhob man' o ficroffon y mae'r athro/athrawes yn ei wisgo. |

3.21 Yn achos ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, bydd y Cynulliad yn disgwyl i gyrff llywodraethu gyfeirio'n briodol at eu cynlluniau hwyluso mynediad pan fyddant yn gwneud cais am gymorth grant y Cynulliad am waith cyfalaf.

**C8** *A oes materion eraill yn ymwneud â mynediad corfforol y gallai cynllun ysgol eu cynnwys?*

**Cysylltiadau rhwng AALl ac Ysgolion a Gynhelir**

3.22 Bydd data mynediad yn gyffredin i strategaethau AALl a chynlluniau ysgol. Bydd AALl yn tynnu ar ddata CRhA a gwybodaeth o ysgolion unigol i adnabod peryglon a rhwystrau i fynediad ar gyfer eu strategaethau hwyluso mynediad. Dylai ysgolion ddefnyddio'r un wybodaeth i lunio eu cynlluniau hwyluso mynediad. Mae angen i AALl ac ysgolion gydweithio i benderfynu a yw'r wybodaeth bresennol yn ddigonol neu a oes angen archwiliadau mynediad (paragraffau 4.5 – 4.6 a 5.4 – 5.6 ac mae Atodiad C yn rhoi arweiniad ar archwiliadau mynediad). Nid oes raid i archwiliadau mynediad fod yn ddrud na chael eu gwneud gan ymgynghorwyr mynediad arbenigol. Ble bo angen ymgynghorwyr mynediad, mae Atodiad B yn rhoi manylion cyswllt y Ganolfan ar gyfer Amgylcheddau gyda Mynediad Hwylus, sy'n gweinyddu cofrestr genedlaethol o ymgynghorwyr mynediad.

3.23 Mae angen i AALl ac ysgolion gydweithio i benderfynu pa adnoddau sydd ar gael gan yr AALl am brosiectau drutach a sut gall ysgolion ddefnyddio adnoddau yn eu cyllidebau dirprwyedig.

**Ysgolion annibynnol ac ysgolion arbennig nas cynhelir**

3.24 Mae ysgolion annibynnol yn gwbl gyfrifol am gynllunio i gynyddu mynediad ffisegol eu hysgolion o fewn yr adnoddau sydd ar gael iddynt. Nid ydynt yn cael eu cynnwys yn strategaethau hwyluso mynediad yr AALl. Efallai byddant yn dymuno gwneud archwiliad mynediad cychwynnol er mwyn adnabod targedau i wella mynediad. Efallai byddant yn dymuno dechrau drwy daclo addasiadau heb fod yn ddrud a chysylltu prosiectau drutach i waith adeiladu ac adnewyddu cynlluniedig.

| |
|---|
| Os oedd ysgol annibynnol yn adnewyddu bloc oedd yn cynnwys ei labordai iaith a'i darpariaeth chweched dosbarth, gallai gynllunio i osod carped peil isel, dwysedd uchel gan fod hynny'n helpu defnyddwyr cadeiriau olwyn i symud yn rhwyddach. Gallai hefyd gynllunio i wella'r goleuadau a'r arwyddion ac addurno gyda lliwiau cyferbyniol. |

**Gwella cyflwyno gwybodaeth i ddisgyblion ag anableddau**

3.25 Mae'r rhan hon o'r ddyletswydd yn cynnwys cynllunio i wneud gwybodaeth ysgrifenedig a roddir fel arfer gan yr ysgol i'w disgyblion - taflenni, amserlenni, gwerslyfrau, gwybodaeth am ddigwyddiadau ysgol – yn gyraeddadwy i ddisgyblion ag anableddau. Gallai hyn gynnwys defnyddio fformat arall, fel print bras, tâp sain, braille, system symbolau cydnabyddedig, defnydd TGCh a darparu gwybodaeth yn llafar, drwy leferydd gwefus neu iaith arwyddion. Dylai'r wybodaeth gymryd anableddau disgyblion i ystyriaeth a dymuniadau disgyblion neu eu rhieni am eu dull cyfathrebu dewisol.

3.26 Rhaid darparu'r wybodaeth o fewn amser rhesymol. Cyfnod rhesymol fyddai dechrau'r flwyddyn academaidd ar gyfer amserlenni; a dechrau'r wers ar gyfer taflenni sydd eu hangen yn ystod y wers.

**Rôl yr Awdurdod Addysg Lleol**

3.27 Mae llawer o wasanaethau cefnogi'r AALl yn darparu ar gyfer plant unigol ag anableddau o amlder isel megis namau ar y clyw a'r golwg. Mae hyn yn aml yn cynnwys helpu ysgolion i ddarparu deunyddiau ysgrifenedig mewn fformatau eraill i ddisgyblion unigol.

3.28 Ble mae gan AALl wasanaethau cefnogi wedi'u darparu'n ganolog, dylent sicrhau bod gan eu holl ysgolion wybodaeth am holl rychwant y gwasanaethau a ddarperir ganddynt, yn cynnwys gwybodaeth am drosi gwybodaeth i fformatau eraill.

3.29 Dylai AALl annog eu hysgolion i rannu arfer da am ddarparu gwybodaeth mewn fformatau gwahanol. Gall ysgolion arbennig ac unedau arbennig mewn ysgolion prif ffrwd rannu gwybodaeth ac arbenigedd yn neilltuol.

3.30 Dylai strategaethau AALl fanylu ar eu cynlluniau ar gyfer datblygu a gwella'r gefnogaeth i ddarparu gwybodaeth mewn gwahanol fformatau.

> Ar ôl gwneud archwiliad o ddeunyddiau addysgu, gwerslyfrau a gwybodaeth arall mewn fformatau eraill a ddelir gan yr AALl a'i ysgolion, gall yr AALl gynllunio i sefydlu banc o ddeunyddiau i'w benthyg i ysgolion. Gall yr AALl hefyd gynllunio i sefydlu gwefan i'w ysgolion sy'n rhoi gwybodaeth am y gefnogaeth sydd ar gael o drosi gwybodaeth i wahanol fformatau, yn cynnwys hyfforddiant, ac annog ysgolion i rannu ymarfer da.

**C9** *A oes materion eraill mewn perthynas â chyflwyno gwybodaeth i ddisgyblion ag anableddau y gallai strategaeth AALl eu cynnwys?*

**Rôl yr ysgol**

3.31 Dylai ysgolion gyflwyno eu cynlluniau ynghylch sut maent yn mynd i ddarparu'r deunyddiau ysgrifenedig a roddir i bob disgybl mewn fformatau eraill ar gyfer disgyblion ag anableddau o fewn amser rhesymol. Gallai cynlluniau gynnwys bod yn llai dibynnol ar ddeunyddiau ysgrifenedig, darparu mwy o ddeunydd yn ddarluniadol ac ar lafar a defnyddio lleferydd gwefus fel bod disgyblion ag anableddau yn gallu cael mynediad at ddeunyddiau. Dylai'r ysgol ystyried sut gallai'r holl wybodaeth a ddarperir fel rheol mewn fformat ysgrifenedig yn cynnwys taflenni gwaith, amserlenni, papurau arholiadau'r ysgol, cylchlythyrau, gwybodaeth am ddigwyddiadau ysgol, teithiau a darpariaeth all-ysgol, fod yn fwy cyraeddadwy dros amser.

> Gallai cynllun hwyluso mynediad yr ysgol gynnwys cynlluniau i gydlynu gyda'r gwasanaethau cefnogi lleol er mwyn datblygu arfer ar y cyd. Er enghraifft, mae gan yr AALl Wasanaeth Synhwyrol, sy'n gartref i'r uned adnoddau ganolog. Mae'r uned hon yn ymdrin ag ymholiadau gan ysgolion ar draws yr AALl, yn storio manylion deunyddiau sydd ar gael eisoes mewn gwahanol fformatau ac yn fodd o gael cyswllt rhwng aelodau'r gwasanaeth cefnogi sy'n gweithio gyda disgyblion unigol. Ar ben hynny, mae hyfforddiant ar gael i staff yn yr ysgolion i'w galluogi i gynhyrchu deunyddiau bob dydd i gefnogi mynediad at y cwricwlwm.

**C10** *A oes materion eraill yn ymwneud â chyflwyno gwybodaeth i ddisgyblion ag anableddau y gallai cynllun ysgol eu cynnwys?*

**ADRAN 4**

**SUT I DDATBLYGU STRATEGAETH HWYLUSO MYNEDIAD AALl**


4.1 Mae gan AALl cryn brofiad o gynllunio strategol yng nghyd-destun cynlluniau sydd eu hangen yn genedlaethol, yn rhai statudol ac an-statudol, a thrwy eu trefniadau cynllunio lleol eu hunain. Mae Cynlluniau Strategol Addysg (CSA) yn cyflwyno cynlluniau'r AALl ar gyfer codi safonau addysg i bob plentyn. Dylid gwneud cysylltiadau priodol rhwng y gwahanol ddogfennau cynllunio strategol er mwyn osgoi dyblygu di-angen.

**Ffurf cynhyrchu'r strategaeth hwyluso mynediad**

4.2. Dyali AALl  gofnodi eu strategaethau hwyluso mynediad ble bynnag sy'n fwyaf priodol yn eu barn hwy ac maent yn cael eu hannog i blethu'r strategaeth gyda chynllun perthynol arall fel y CSA neu'r cynllun trefniadaeth ysgolion. Dylid cyhoeddi strategaethau yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg yr awdurdod.

**Cynnwys y strategaeth hwyluso mynediad**

4.3 Nid yw'r canllawiau hyn yn rhagnodi cynnwys y strategaeth hwyluso mynediad, ond dyma'r prif brosesau y dylai'r AALl eu dilyn wrth gynhyrchu strategaethau hwyluso mynediad:




**Archwilio mynediad ac adolygu hwylustod mynediad pob ysgol a gynhelir**

4.4 Ni all AALl ymdrin yn strategol â chynllunio i gynyddu mynediad i'r anabl i'w ysgolion (yn cynnwys unedau cyfeirio disgyblion ac ysgolion meithrin) heb wybod beth yw'r sefyllfa bresennol. Dylai AALl gael peth gwybodaeth am fynediad ffisegol ar gyfer disgyblion ag anableddau i'w ysgolion drwy ddatblygiad y CRhA a'r asesiadau priodoldeb sy'n sail i'r broses.

4.5 Dylai AALl sicrhau bod eu gwybodaeth yn gywir ac yn gyfredol. Dylent ddefnyddio'r wybodaeth sydd gan ysgolion o'u hadolygiadau mynediad ar gyfer eu cynlluniau hwyluso mynediad eu hunain. Dylai AALl weithio gyda'u hysgolion i benderfynu a yw data presennol am fynediad yn ddigonol ac a oes angen archwiliadau mynediad. Ble bo angen gwybodaeth bellach, gall AALl gael cymorth drwy gyfeirio at *Bwletin Adeiladu 91: Mynediad i Bobl ag Anableddau i Adeiladau Ysgol a Bwletin Adeiladu 94: Dylunio Ysgolion Cynhwysol,* a gyhoeddwyd gan y DfES, sy'n rhoi canllawiau am weithredu archwiliadau mynediad i ysgolion a hwyluso mynediad i ysgolion. Dylai'r archwiliad hefyd gynnwys gwybodaeth am agweddau'r ysgolion tuag at gynhwysiant a'u profiad hwy ohono, y ddarpariaeth arbenigol bresennol ar gyfer disgyblion ag anableddau ac anghenion hyfforddiant y staff. Dylai AALl rannu pob gwybodaeth mynediad berthnasol gyda'u hysgolion.

**Nodi camau gweithredu**

4.6 Unwaith bydd gan AALl wybodaeth am y rhwystrau i fynediad disgyblion ag anableddau i'w hysgolion a gynhelir, dylent wneud cynlluniau priodol a blaenoriaethu camau gweithredu i oresgyn y rhwystrau hyn. Wrth ddatblygu eu strategaethau mae angen i AALl gynllunio ar gyfer anghenion presennol y disgyblion cyfredol ac ar gyfer anghenion disgyblion yn y dyfodol. Gall AALl ystyried gweithio gyda gwasanaethau iechyd sy'n dal gwybodaeth am niferoedd y genedigaethau byw yn yr ardal; a gwasanaethau cymdeithasol, sy'n dal gwybodaeth am niferoedd tebygol o ddisgyblion gydga anableddau yn yr ardal drwy'r gofrestr leol o blant ag anableddau a gwasanaethau cefnogi teuluoedd. Mae angen i AALl roi sylw i ddewis rhieni wrth ragfynegi anghenion y dyfodol.

4.7 Ddatblygu eu strategaethau. Gallai hyn gynnwys swyddogion mynediad yr awdurdod lleol, mudiadau anabledd a gwirfoddol lleol a chenedlaethol, pobl ag anableddau a rhieni disgyblion ag anableddau, a rhannu arfer da gydag AALl eraill. Gallai hefyd gynnwys gweithio gyda swyddogion penodedig yn y gwasanaethau cymdeithasol a phaediatregyddion cymunedol sy'n gallu monitro tueddiadau lleol o ran niferoedd disgyblion anabl yn yr ardal. Gall partneriaid o'r fath roi cyngor (neu gyfeirio'n briodol at ffynonellau cyngor) am newidiadau arfaethedig i amgychedd ffisegol ysgolion ac ar asesu risg a rheolaeth materion iechyd a diogelwch. Mae Atodiad C yn cynnwys rhestr o sefydliadau sy'n gallu rhoi cyngor ar faterion mynediad.

4.8 All AALl ddewis ystyried y trefniadau ar gyfer gwasanaethau cefnogi i ysgolion a photensial ysgolion i gefnogi ei gilydd. Er enghraifft, gallai ysgol arbennig i blant ag anawsterau dysgu difrifol roi cefnogaeth i ysgol prif ffrwd sy'n bwriadu derbyn plentyn ag anhawster dysgu.

4.9 Mae'n rhaid i AALl ariannu eu strategaethau hwyluso mynediad yn ddigonol. Mae hynny'n golygu cydnabod hyn fel gwariant dilys a'i ymgorffori i gyllidebau presennol a'r dyfodol, gwariant rheolaidd a chyfalaf.

## Gosod nodau a thargedau

4.10 AALl osod nodau, targedau ar gyfer cyflawni nodau ac amserlenni i'w strategaethau. Heb nodau a thargedau, mae'n anodd asesu'r gwelliannau a wneir, adolygu llwyddiant cynlluniau cyfredol ac adnabod gwelliannau pellach. Dylai nodau a thargedau fod yn ddigon penodol i alluogi eu mesur. Gellid eu mynegi yn nhermau canrannau ysgolion gyda lefelau penodedig o hwylustod mynediad ac yn erbyn amserlen. Fodd bynnag, mae'n anodd gosod targedau mesuradwy ar gyfer rhai agweddau hwylustod mynediad, fel newid mewn ethos. Ar yr un pryd ag y mae'n gosod nodau a thargedau, dylai'r AALl fod yn sefydlu trefniadau monitro a chloriannu (gweler y paragraffau isod).

## Ymgynghori ar y strategaeth hwyluso mynedia

4.11 Dylai'r AALl ymgynghori mor eang â phosibl wrth baratoi eu stratgaethau hwyluso mynediad, ond mae'n rhaid cynnwys ymgynghori â'r canlynol:

- Pob ysgol a gynhelir, yn cynnwys ysgolion meithrin
- Ymddiriedolwyr ysgolion (fel esgobaethau lleol)
- Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc
- Partneriaethau Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- Awdurdodau Iechyd ac Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol
- Mudiadau gwirfoddol lleol perthnasol
- Undebau athrawon ac undebau eraill y staff sydd heb fod yn athrawon

Rhaid caniatáu digon o amser i'r sawl yr ymgynghorir â hwy ymateb.

Mae strategaeth yn fwy effeithiol os datblygwyd hi mewn partneriaeth â budd-ddeiliaid allweddol.

## Cwblhau a rhoi cyhoeddusrwydd i'r strategaeth

4.12 Mae angen i AALl gymryd canlyniadau ymgynghoriadau wrth gwblhau eu strategaethau. Mae'r Ddeddf yn hawlio bod strategaethau AALl ar gael i'w harchwilio gan eraill sydd â diddordeb ar amseroedd rhesymol. Gall AALl ddymuno rhoi cyhoeddusrwydd mwy pendant i'w strategaethau i sicrhau bod pawb arall sydd â diddordeb, fel grwpiau rhieni a'r sector gwirfoddol yn cael eu hysbysbu am ei gynlluniau. Dylai AALl fod yn barod i ddarparu eu strategaethau mewn fformatau eraill os gofynnir iddynt.

## Gweithredu

4.13 Unwaith mae'r strategaeth hwyluso mynediad yn ei lle, mae'n rhaid i AALl weithredu eu strategaethau gan ddarparu adnoddau digonol i wneud hynny. Mae hyn yn cynnwys adolygu a chloriannu strategaethau.

**Adolygu'r strategaeth**

4.14 Heb gloriannu'r strategaeth nid oes modd penderfynu a yw nodau yn cael eu cyflawni ac a yw'r rhaglen weithredu yn rhoi gwerth am yr arian a'r ymdrech a wariwyd. Dylid datblygu trefniadau cloriannu mewn perthynas â nodau, targedau ac amserlenni a osodwyd yn y strategaeth.

4.15 Ni ddylai llwyddiant strategaeth hwyluso mynediad ganolbwyntio ar gyflawni nodau a thargedau yn unig. Gellid dangos llwyddiant yn ogystal drwy:

- Dystiolaeth am gynnydd yng nghyfranogaeth disgyblion ag anableddau ym mywyd llawn yr ysgol (er enghraifft, cymryd rhan mewn clybiau all-ysgol, gweithgareddau hamdden, chwaraeon a diwylliant ac ar deithiau ysgol);
- Newidiadau y gellir eu harsylwi yn hyder y staff mewn perthynas ag addysgu a chefnogi disgyblion ag amrywiaeth o anghenion;
- Cynnydd ym modlonrwydd disgyblion ag anableddau a'u rhieni gyda'r ddarpariaeth a wneir ar eu cyfer;
- Gwelliannau yn y mynediad ffisegol i adeiladau ysgol;
- Protocolau a gweithdrefnau clir ar gyfer gweithio'n aml-asiantaethol gyda gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd er mwyn cefnogi disgyblion ag anghenion meddygol; ac
- Ysgolion yn yr ardal yn sefydlu cysylltiadau a rhannu arfer da.

4.16 Mae gan AALl rôl hefyd mewn sicrhau bod ysgolion yn gallu cynllunio'n effeithiol ar gyfer gwella mynediad i'r anabl. Wrth gydweithio bydd angen i AALl ac ysgolion ystyried y Cod Ymarfer am Y Berthynas rhwng AALl ac Ysgolion sy'n rhoi arweiniad ar sicrhau perthynas effeithiol rhwng AALl ac ysgolion.

**C11** *A yw'r camau a gyflwynwyd ar gyfer datblygu strategaeth hwyluso mynediad AALl yn briodol?*


**C12** *A oes esiamplau o arfer da y gellid eu dyfynnu?*

**C13** *Mae paragraffau 4.2, 4.12 a 4.15-4.17 i gyd yn cynnwys canllawiau stadudol y mae'n rhaid i'r AALl eu hystyried. A ydynt yn ddigonol? A oes unrhyw grwpiau eraill y dylid eu nodi fel rhai y dylid ymgynhgori â hwy?*

**ADRAN 5**

**SUT I DDATBLYGU CYNLLUN HWYLUSO MYNEDIAD YSGOL**

5.1 Bwriad y camau a gyflwynir isod yw rhoi arweiniad i ysgolion wrth ddatblygu cynlluniau mynediad sy'n ymateb i anghenion yr ysgol a'i disgyblion neu ei darpar ddisgyblion. Mae Atodiad F yn rhoi enghraifft o sut gallai cynllun hwyluso mynediad edrych.




**Sefydlu grŵp cynllunio**

5.2 Gall yr ysgol sefydlu gweithgor cynllunio i arwain y broses. Nid oes raid i hwn fod yn grŵp mawr, ond dylai fod yn gallu adlewyrchu pob agwedd ar fywyd yr ysgol. Gallai'r gweithgor gynnwys y llywodraethwr gyda'r cyfrifoldeb penodol am AAA, rhiant disgybl ag anabledd, cynrychiolydd o fudiad anabledd lleol a'r pennaeth.

5.3 Dylai'r gweithgor cynllunio wneud defnydd o arbenigedd sydd ar gael wrth ddatblygu, gweithredu a chloriannu cynlluniau. Mae disgyblion ag anableddau, eu rhieni, athrawon arbenigol a mudiadau anabledd a gwirfoddol lleol yn debygol o gael profiad mewn adnabod rhwystrau i fynediad a gallent helpu'r gweithgor cynllunio i nodi arferion a threfniadau sy'n gweithredu fel rhwystrau i dderbyn, lleoli a chynnwys plant ag anableddau. Mae AALl hefyd yn debygol o allu rhoi cyngor a gwybodaeth ddefnyddiol. Mae Atodiad C yn cynnwys rhestr o fudiadau sy'n gallu rhoi cyngor am faterion mynediad.

**Archwiliad mynediad ac adolygu gweithgareddau presennol**

5.4 Dylai ysgol asesu'r hwylustod mynediad presennol a nodi rhwystrau i fynediad neu gynhwysiant. Dylai ysgol adolygu'r ffyrdd y gallai ei threfniadau presennol atal neu rwystro disgyblion ag anableddau rhag cael mynediad at addysg a phob agwedd arall ar fywyd yr ysgol. Dylai'r adolygiad mynediad gynnwys yr amgylchedd ffisegol; darpariaeth cymhorthion a gwasanaethau ategol; arferion addysgu a dysgu; y cwricwlwm; diwylliant ac ethos yr ysgol; a darpariaeth gwybodaeth ysgrifenedig.

5.5 Dylai ysgolion ystyried pob gwybodaeth gyfredol berthnasol ar hwylustod mynediad yr ysgol ac anghenion y dyfodol. Dylai'r AALl gael gwybodaeth am fynediad ffisegol i'w ysgolion. Gall AALl ddarparu gwybodaeth hefyd am ragfynegi anghenion y dyfodol. Dylai data am boblogaeth bresennol yr ysgol alluogi'r ysgol i gynllunio ar gyfer anghenion disgyblion ag anableddau yn is i lawr yr ysgol. Er enghraifft, gall ysgol sy'n gwybod am ddisgybl ag anableddau mewn dosbarth derbyn gynllunio i hyfforddi staff neilltuol i ddiwallu anghenion y plentyn hwnnw yn nes ymlaen yn yr ysgol.

5.6 Mae Atodiad D yn rhoi arweiniad ar wneud archwiliad mynediad ac yn cynnig rhestrau gwirio ar gyfer nodi rhwystrau ffisegol a rhwystrau i'r cwricwlwm. Mae'r Mynegai Cynhwysiant yn rhoi canllawiau defnyddiol am adnabod rhwystrau i fynediad. Mae *Bwletin Adeiladu 91: Mynediad i Bobl ag Anableddau i Adeiladau Ysgol a Bwletin Adeiladu 94: Dylunio Ysgolion Cynhwysol,* a gyhoeddwyd gan y DfES, yn rhoi canllawiau am weithredu archwiliadau mynediad i ysgolion a hwyluso mynediad i ysgolion. Mae gan lawer o awdurdodau lleol swyddogion mynediad sy'n gallu rhoi cyngor am faterion mynediad. Os yw ysgol yn dymuno cyflogi ymgynghorydd mynediad, gall gael gwybodaeth o'r Ganolfan ar gyfer Amgylcheddau gyda Mynediad Hwylus, sy'n gweinyddu cofrestr genedlaethol o ymgynghorwyr mynediad cymeradwyedig (Gweler Atodiad C).

**Dyfeisio camau gweithredu i ddileu rhwystrau**

5.7 Ar ôl adnabod rhwystrau i fynediad disgyblion ag anableddau, mae ysgolion angen dyfeisio camau gweithredu i ddileu'r rhwystrau hynny. Dylai ysgolion restru yr holl addasiadau angenrheidiol (yn cynnwys amcangyfrif realistig o'r gost), a gellid eu rhannu yn gategorïau fel hyfforddiant staff; arferion addysgu a dysgu; adnewyddu a chynnal a chadw (e.e. defnydd lliw wrth ail-addurno ac ailosod gorchuddion lloriau neu ddodrefn); gwariant cyfalaf llai; a gwariant cyfalaf mawr. Wedyn dylai ysgolion lunio blaenoriaethau tymor byr, canolig a thymor hir a dyfeisio strategaethau i ymdrin â'r blaenoriaethau hyn gyda threfniadau gweithredu clir ac amserlen ar gyfer y gwaith. Ble mae blaenoriaethau yn cynnwys gwaith cyfalaf, mae angen hysbysu'r AALl am y rhain i'w galluogi i roi ystyriaeth iddynt yn strategaeth hwyluso mynediad yr awdurdod a'i gynlluniau am waith cyfalaf.

| |
|---|
| Enghraifft: gallai strategaeth tymor byr gynnwys gweithio gyda chlwstwr o ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig i rannu arfer da mewn perthynas â gwahaniaethu'r cwricwlwm. Gallai'r strategaeth tymor canolig fod i sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant cydraddoldeb anabledd o fewn dwy flynedd gyda rhaglen sefydlu ar gyfer aelodau staff newydd.Gallai blaenoriaeth tymor hir fod i gynllunio sicrhau mynediad corfforol i fannau cyffredin yr ysgol ac i ystafelloedd dosbarth dethol. Byddai'n rhaid i'r ysgol weithio gyda'r AALl i sicrhau cytundeb am y cyllid angenrheidiol. |

5.8 Mae angen i ysgolion ariannu eu cynlluniau hwyluso mynediad yn ddigonol. Golyga hyn fod costau gweithredu'r cynllun yn cael eu hymgorffori i ymrwymiadau'r gyllideb bresennol ac yn y dyfodol. Dylai ysgolion a gynhelir gydlynu â'r AALl am adnoddau i ariannu prosiectau cyfalaf.

**Gosod nodau a thargedau**

5.9 Dylai nodau a thargedau fod yn ddigon penodol i'w galluogi i fod yn fesuradwy (e.e. yr holl staff i gael hyfforddiant ymwybyddiaeth anabledd o fewn dwy flynedd, un labordy gwyddoniaeth, ystafell TGCh, ystafell gelf a stiwdio drama i fod yn gyraeddadwy i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn o fewn tair blynedd). Dylent gynnwys terfynau amser a strategaethau cloriannu i alluogi ysgolion i farnu pa mor effeithiol y bu'r cynlluniau (gweler paragraffau 5.14 – 5.15).

**Ymgynghori am y cynllun**

5.10 Nid yw cynllun yn debygol o lwyddo oni bai fod y bobl sy'n gyfrifol am ei weithredu yn teimlo mai nhw sy'n berchnogion arno. Dylai ysgolion, felly, ymgynghori â'u staff eu hunain. Dylent hefyd sicrhau bod pawb sydd wedi cymryd rhan mewn cynhyrchu'r cynllun yn cael y cyfle olaf i wneud sylwadau cyn iddo gael ei gwblhau. Efallai bydd yr ysgol yn dymuno ymgynghori'n ehangach gyda rhieni, disgyblion a chyrff eraill. Rhaid i'r cynllun gael ei gymeradwyo gan y corff sy'n gyfreithiol gyfrifol amdano – y corff llywodraethu yn y rhan fwyaf o achosion (gweler para 2.1)

**Cwblhau a rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynllun**

5.11 Dylai ysgolion roi sylw i'r ymatebion i'r ymgynghoriadau wrth gwblhau eu cynlluniau. Mae rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynllun yn helpu i atgyfnerthu ymdeimlad o berchnogaeth a chyfrannu at lwyddiant y cynllun ymhlith staff, llywodraethwyr, disgyblion a rhieni.

5.12 Bydd gan ysgolion a gynhelir ddyletswydd i gyhoeddi gwybodaeth am eu cynlluniau hwyluso mynediad yn adroddiad blynyddol y llywodraethwyr i'r rhieni. Gall hyn gynnwys crynodeb o'r cynllun hwyluso mynediad llawn, gyda chyfarwyddiadau eglur o ble gellir cael copi o'r cynllun llawn. Bydd raid i ysgolion annibynnol gael copi o'u cynllun hwyluso mynediad ar gael i unrhyw un sy'n gofyn am ei weld. Mae'n arfer da i bob ysgol roi eu cynlluniau ar gael os gofynnir amdanynt. Gellir gofyn i ysgolion ddarparu eu strategaethau mewn fformatau eraill.

**Gweithredu**

5.13 Unwaith bydd ysgol wedi cynhyrchu cynllun hwyluso mynediad, mae gan yr ysgol ddyletswydd statudol i weithredu'r cynllun ac i glustnodi adnoddau digonol ar ei gyfer.

**Adolygu'r cynllun**

5.14 Mae angen cloriannu er mwyn gweld a yw nodau yn cael eu cyflawni ac a yw'r rhaglen weithredu yn rhoi gwerth yr arian. Mae'n rhaid i ysgolion adolygu'r cynllun mynediad yn gyson a'i addasu fel bo'r angen. Dylid datblygu trefniadau cloriannu mewn perthynas â'r nodau, targedau ac amserlenni a osodir yn y cynllun.

5.15 Yn ogystal â chyflawni nodau a thargedau, gellid dangos llwyddiant cynllun hwyluso mynediad drwy:

- newidiadau y gellir eu harsylwi yn hyder y staff wrth addysgu a chefnogi disgyblion ag anableddau ag amrywiaeth o anghenion;
- tystiolaeth o gynnydd yng nghyfranogaeth disgyblion ag anableddau ym mywyd llawn yr ysgol (er enghraifft, cymryd rhan mewn clybiau all-ysgol, gweithgareddau hamdden, chwaraeon a diwylliant ac ar deithiau ysgol);
- cynnydd ym moddhad disgyblion ag anableddau a'u rhieni gyda'r ddarpariaeth a roddir iddynt a'u cyfranogaeth ym mywyd yr ysgol;
- archwiliadau a wnaed yn y prif feysydd cwricwlwm;
- gwelliannau cynlluniedig cynyddol i amgylchedd ffisegol yr ysgol; a
- gwybodaeth i ddisgyblion ar gael mewn amrywiaeth o fformatau.

**Sicrhau dyfodol y cynllun hwyluso mynediad**

5.16 Bydd ymgorffori cynllunio mynediad i bolisi ehangach yn sicrhau bydd ymrwymiad i'r cynllun yn ymestyn tu hwnt i'r gweithgor cynllunio a bydd yn ennyn ffydd bod yr ymrwymiad yn un gwirioneddol.

5.17 Yn y tymor byr, gall y cynllun mynediad fod yn elfen ar wahân o'r cynllun datblygu ysgol. Fodd bynnag, dros amser, dylai'r cynllun ddod yn rhan hanfodol o'r blaengynllunio – nid yn gymaint yn strategaeth annibynnol ond yn fwy o linyn yn rhedeg drwy holl gynlluniau a pholisïau'r ysgol, yn cynnwys cynlluniau sy'n ymwneud â rheolaeth adeiladau, y cwricwlwm, technoleg gwybodaeth, gwasanaethau cefnogi a hyfforddiant staff. Bydd hefyd yn bwydo i mewn i gynllun yr AALl.

**C14** *A yw'r camau a gyflwynir ar gyfer datblygu cynllun hwyluso mynediad ysgol yn briodol?*

**C15** *A oes enghreifftiau o arfer da y gellid eu dyfynnu?*

## ADRAN 6

## ADNODDAU

6.1 Mae gwaith cyfalaf mewn ysgolion a gynhelir, megis ailadeiladu, gosod lifftiau, drysau electromagnetig, ynysu sain, toiledau hygyrch; a darpariaeth cyfarpar arbenigol drutach yn cael eu cyllido gan yr AALl ac eithrio ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ble mae 85% o gostau o'r fath yn cael eu cyllido drwy grant y Cynulliad. Mae gan AALl ddwy brif ffynhonnell ariannol ar gael iddynt.

- eu hadnoddau cyfalaf eu hunain yn cynnwys Cyllid Cyfalaf Cyffredinol heb ei neilltuo sydd ar gael yn flynyddol gan y Cynulliad Cenedlaethol (ffigwr tybiannol Cymru gyfan ar gyfer addysg yw £54.9m ar hyn o bryd)

- grant gwella adeiladau ysgol a osodwyd ar £36.7m ar gyfer 2003-04 a sy'n codi i £74.7m yn 2005-06 gyda'r bwriad bod cyllid yn parhau ar y lefel flynyddol hon tan 2010.

6.2 Wrth wahodd AALl i gyflwyno cynlluniau ar gyfer eu cyfran hwy o'r grant gwella adeiladau ysgol ac wrth wahodd ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir i gyflwyno cynlluniau ar gyfer arian grant, rhoddir pwyslais neilltuol ar y ddyletswydd i gynllunio ar gyfer gwella mynediad i ddisgyblion ag anableddau a'i weithredu. Gofynnir i AALl a chyrff llywodraethu roi sylw neilltuol i anghenion o'r fath boed hynny drwy ymgorffori nodweddion hwyluso mynediad i mewn i gynlluniau adeiladu neu ailfodelu mawrion neu wrth fynd ymlaen â chynlluniau hwyluso mynediad annibynnol ar gyfer adeiladau sy'n bodoli.

6.3 Rhaid i ysgolion a gynhelir edrych ar eu cyllidebau dirprwyedig i ariannu elfennau o'u cynlluniau mynediad, ar wahân i waith cyfalaf.

6.4 Mae arian ar gyfer agweddau o'r ddarpariaeth AAA ac anabledd ar gael yn y rhaglen GCAH. Mae hyn yn cynnwys hyfforddi athrawon, cynorthwywyr cefnogi dysgu a staff arall. AALl sy'n penderfynu defnydd y cyllid hwn er ei fod yn cael ei drosglwyddo i'r ysgolion i'w wario. Wrth rannu adnoddau GCAH bydd rhaid i AALl ystyried y dyletswyddau newydd a osodwyd ar eu hysgolion i weithredu cynlluniau ar gyfer mynediad i'r anabl.

6.5 Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn monitro gwariant cyfalaf ar brosiectau mynediad i'r anabl drwy GRhA a defnydd y grant gwella adeiladau ysgol a'r grant i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir.

**AROLYGU**

6.6 Fel rhan o'u harolygiadau ysgolion ac AALl ar ôl 1 Ebrill 2004 bydd Estyn yn astudio strategaethau hwyluso mynediad AALl a chynlluniau hwyluso mynediad ysgolion yn nhermau eu paratoad, eu hadolygiad a'u gweithrediad. Yn achos ysgolion annibynnol, bydd cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd cynllunio yn cael ei gynnwys yn y safonau a osodir ar gyfer arolygu ysgolion o'r fath gan Estyn.

**CAMAU CYWIRO**

6.7 Nid oes gan Dribiwnlys AAA ac Anabledd Cymru, a fydd yn dechrau gwrando achosion ym Medi 2003, y grym i wrando apeliadau gan rieni neu eraill sydd â diddordeb yn erbyn AALl ac ysgolion parthed eu cyfrifoldebau o dan ddyletswydd cynllunio y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd.

6.8 Gall y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes o dan y pwerau a ddirprwywyd iddi gan y Cynulliad Cenedlaethol, ofyn am gopi o strategaeth AALl neu gynllun ysgol. Os yw'r Gweinidog yn fodlon bod AALl, neu gorff llywodraethu ysgol a gynhelir neu ysgol arbennig nas cynhelir a gymeradwywyd o dan adran 342 Deddf Addysg 996, yn gweithredu neu'n bwriadu gweithredu yn afresymol neu wedi methu cyflawni ei ddyletswydd gall gyhoeddi cyfarwyddyd am gyflawni'r ddyletswydd. Gall y Gweinidog ymateb i gŵyn neu yng ngoleuni gwybodaeth a gafwyd yn uniongyrchol am yr AALl neu'r ysgol.

6.9 Dylai AALl ac ysgolion sicrhau bod eu trefniadau cwynion yn cynnwys cyfeiriad at eu strategaeth ar y naill law a'u cynlluniau ar y llaw arall.

**C16** *A oes unrhyw faterion mewn perthynas ag adran 6 yr ydych eisiau eu codi?*

**C17** *A oes unrhyw faterion eraill yn deillio o'r canllawiau drafft hyn yr hoffech roi sylwadau amdanynt?*

## ADRAN 7

## RHEOLIADAU DRAFFT

Dyma'r rheoliadau drafft a fydd yn cael eu gosod o flaen y Cynulliad Cenedlaethol i'w cymeradwyo.

**C18** *Oes gennych chi unrhyw sylwadau am y rheoliadau drafft?*

**Rheoliadau Gwahaniaethu ar sail Anabledd (Cyfnodau Rhagnodedig ar gyfer Strategaethau a Chynlluniau Mynediad i Ysgolion) (Cymru) 2003**

**NODYN EGLURHAD**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, a wneir o dan adran 28D Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995, yn rhagnodi bod:

- awdurdodau addysg lleol yn gorfod paratoi strategaethau mynediad pob tair blynedd;
- y cyrff sydd yn gyfrifol am ysgolion yn gorfod paratoi cynlluniau mynediad pob tair blynedd;
- y cyfnodau ar gyfer y strategaethau mynediad a'r cynlluniau mynediad fydd tair blynedd yn dechrau ar 1af Ebrill ac yn diweddu ar 31ain Mawrth ac mae'r strategaeth gyntaf o'r fath a'r cynllun cyntaf o'r fath i ddechrau ar 1af Ebrill 2004 a diweddu ar 31ain Mawrth 2007; a
- ble mae ysgol yn cael ei sefydlu ar ôl 1af Ebrill 2004, bydd y cyfnod rhagnodedig ar gyfer cynllun mynediad cyntaf yr ysgol honno yn dechrau ar y dyddiad y sefydlir yr ysgol ac mae i ddiweddu ar y dyddiad y byddai'r cynllun cyfredol ar gyfer yr ysgol wedi diweddu pe bai'r ysgol wedi cael ei sefydlu ar neu cyn 1af Ebrill 2004.

**Rheoliadau Gwahaniaethu ar Sail Anabledd (Cyfnodau Rhagnodedig ar gyfer Strategaethau a Chynlluniau Hygyrchedd ar gyfer Ysgolion) (Cymru) 2003**

*Wedi'u gwneud* 2003
*Yn dod i rym* *[5 Mai] 2003*

Drwy arfer y pwerau a freiniwyd yn yr Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 28D(1), (2), (8) a (9), 67(1) a (3)(a), a 68(1) o Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995([1]), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol([2]);

**Enwi, Cychwyn a Chymhwyso**

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwahaniaethu ar Sail Anabledd (Cyfnodau Rhagnodedig ar gyfer Strategaethau a Chynlluniau Hygyrchedd ar gyfer Ysgolion) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar [5 Mai] 2003.

(1) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

**Cyfwng penodedig ar gyfer paratoi strategaethau hygyrchedd a chynlluniau hygyrchedd**

2. At ddibenion is-adrannau (1) ac (8) o adran 28D o Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995, rhaid paratoi strategaethau hygyrchedd a chynlluniau hygyrchedd bob tair blynedd.

**Cyfnod penodedig ar gyfer strategaethau hygyrchedd a chynlluniau hygyrchedd**

3. At ddibenion is-adrannau (2) a (9) o adran 28D o Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995, tair blynedd fydd y cyfnod rhagnodedig ym mhob achos, gan gychwyn ar 1 Ebrill.

4. Mewn perthynas ag ysgol sydd yn cael ei sefydlu wedi 1 Ebrill 2004, at ddibenion adran (9) o adran 28D o Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995, bydd cyfnod rhagnodedig cynllun hygyrchedd yr ysgol honno yn cychwyn ar y dyddiad y mae'r ysgol yn cael ei sefydlu ac yn gorffen ar y dyddiad y byddai'r cynllun hygyrchedd presennol wedi gorffen pe bai'r ysgol wedi ei sefydlu ar 1 Ebrill 2004, neu cyn hynny.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998([3])

Date

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

---

([1]) 1995, p.50; mewnosodwyd adran 28D gan Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 (p.10), adran 14(1).

([2]) Am ystyr *'prescribed'* a '*regulations*' gweler adran 28D(17) o Ddeddf Disgrimineiddio ac Anabledd 1995.

([3]) 1998 p.38.

**ATODIAD A**

**DOGFENNAU DEFNYDDIOL**

**NID YW'R RHESTR HON YN CYNNWYS POPETH**

Gellir gweld dogfennau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y Ganolfan Cyhoeddiadau, y Cynulliad Cenedlaethol yn y Pierhead, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pierhead Street, Bae Caerdydd CF99 1NA ac maent ar gael fel rheol ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru dysgu.cymru.gov.uk

Gellir cael y rhan fwyaf o ddogfennau rhad ac am ddim y **DfES o Ganolfan Cyhoeddiadau DfES**, Blwch Post 5050, Sherwood Park, Annesley, Nottinghamshire NG15 0DJ. Ffôn. 0845 6022260; ffacs 0845 6033360; minicom; 0845 60555650; e-bost dfes@prolog.uk.com

Gellir cael dogfennau sydd rhaid talu amdanynt o'r Llyfrfa: **The Stationery Office,** Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN. Ffôn 0870 600 5522; ffacs 0870 600 5533; gwefan www.thestationeryoffice.com

**Rhestrir y cyhoeddiadau yn ôl y cyhoeddwr / mudiad arweiniol:**

**ACCAC:**Cyfle Cyfartal & Amrywiaeth yn y Cwricwlwm Ysgol yng Nghymru. Cyhoeddwyd gyntaf yn 2001. Ar gael o: ACCAC Publications, Blwch Post 2129, Erdington, Birmingham, B24 0RD; Ffôn 07071 223647 (Saesneg) neu 07071 223646 (Cymraeg); gwefan www.accac.org.uk

**ACCAC:**Y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru. Manylion fel yr uchod.

**ACCAC:**Canolbwyntio ar Lwyddiant – Canllawiau ar gynnwys Disgyblion gydag Anghenion Ychwanegol wrth Osod Targedau Ysgol Gyfan. Manylion fel yr uchod.

**ACCAC:**Strwythur ar gyfer Llwyddiant – Canllawiau ar y Cwricwlwm Cenedlaethol ac Anhwylder Sbectrwm Awtistig. Manylion fel yr uchod.

**ACCAC:**Galluogi Mynediad – Diwallu Anghenion Disgyblion gydag Anawsterau Emosiynol ac Ymddygiad. Manylion fel yr uchod.

**British Standards [BS8300]:** 2001. Dyluniad adeiladau a'u hymdriniaeth er mwyn diwallu anghenion pobl gydag anableddau – Cod Ymarfer. Ar gael oddi wrth British Standards. £148 i rai heb fod yn aelodau. Gwybodaeth o: www.bsi-global.com

**Centre for Studies on Inclusive Education:** Index for Inclusion 2000, £24.95. Gellir ei gael o CSIE. Ffôn 0117 344 4007; ffacs; 0117 344 4005; gwefan www.inclusion.org.uk

**DfEE:**Dylunio ar gyfer Disgyblion gydag Anghenion Addysgol Arbennig mewn Ysgolion Arbennig. Bwletin Adeiladu 77. Cyhoeddwyd 1992. Ar gael o'r Llyfrfa.

**DfEE:**Canllawiau ar gyfer Dylunio Amgylcheddol mewn Ysgolion. Bwletin Adeiladu 87. Cyhoeddwyd 1997. Ar gael o'r Llyfrfa.

**DfEE:**Dylunio Goleuadau ar gyfer Ysgolion. Bwletin Adeiladu 90. Cyhoeddwyd 1999. Ar gael o'r Llyfrfa.

**DfEE:**Mynediad i Bobl gydag Anableddau i Adeiladau Ysgol: Canllawiau Rheolaeth a Dylunio. Bwletin Adeiladu 91, cyhoeddwyd 1999, £14.95 ar gael o'r Llyfrfa. Gwefan www.dfes.gov.uk/schoolbuildings

**DfEE:**Dylunio Ysgolion Cynhwysol. Bwletin Adeiladu 94, cyhoeddwyd 2001, £19.95, ar gael o'r Llyfrfa; Gwefan www.dfes.gov.uk/schoolbuildings

**DfEE:** Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 – Canllawiau ar y materion sydd i'w hystyried wrth benderfynu ar gwestiynau sydd yn berthynol i ddiffiniad anabledd. ISBN 0-11-270955-9 Ar gael o'r Llyfrfa.

**Cydraddoldeb Anabledd mewn Addysg:** Llawlyfr Cwrs Hyfforddiant ar gyfer Cynhwysiant a Chydraddoldeb Anabledd. Mae hwn ac adnoddau eraill ar gyfer cynhwysiant a chydraddoldeb anabledd ar gael oddi wrth y DEE, ffôn 020 7359 2855; e-bost info@diseed.org.uk; gwefan www.diseed.org.uk

**Comisiwn Hawliau Anabledd:** DGA rhan 4 – Cod Ymarfer i Ysgolion. Dosbarthwyd y fersiwn terfynol i bob ysgol ac awdurdod addysg lleol 2002. Manylion pellach o www.drc-gb.org Ffôn 08457 622 633

**Comisiwn Hawliau Anabledd:** Cod Ymarfer am Hawliau Mynediad: Ar gael fel yr uchod.

**Tasglu Hawliau Anabledd:** Adroddiad 'From Exclusion To Inclusion' cyhoeddwyd yn 1999. Am ddim. Ar gael o ganolfan cyhoeddi DfES a www.disability.gov.uk

**Estyn:** Y Llawlyfr Arolygu. Ar gael o: Estyn, Anchor Court, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW. Ffôn. 029 20446446. Enquiries@estyn.gsi.gov.uk

**Estyn:** Y Fframwaith ar gyfer Arolygu Ysgolion. Ar gael o: Estyn, Anchor Court, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW. Ffôn. 029 20446446. Enquiries@estyn.gsi.gov.uk

**Estyn:** Amcanu at Ddarpariaeth Ardderchog ar gyfer AAA (2001). Ar gael o: Estyn, Anchor Court, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW. Ffôn. 029 20446446. Enquiries@estyn.gsi.gov.uk

**Estyn:** Safonau ac Ansawdd mewn Ysgolion Arbennig. Ar gael o: Estyn, Anchor Court, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW. Ffôn. 029 20446446. Enquiries@estyn.gsi.gov.uk

**JMU Access Partnership:** Sign Design Guide (2000)**;** Ar gael o Wasanaethau Cwsmeriaid RNIB: Ffôn: 020 7391 2002; Gwefan: www.jmuaccess.org.uk/publications.asp

**JMU Access Partnership/ICI Paints/Reading University:** Colour and Tonal Contrast 2001 CD Rom: Ar gael o Dulux Technical Group; Ffôn: 0870 242 1100; Gwefan: www.duluxtrade.co.uk

**RNID:** Cynnwys disgyblion byddar yn effeithiol mewn ysgolion prif ffrwd**.** Prosiect canllawiau addysg. 2001. Gwybodaeth ar gael o: Ffôn: 0808 808 9000; Gwefan: www.rnid.org.uk

**RNID:** Hybu mynediad at y cwricwlwm i ddisgyblion byddar. Prosiect canllawiau addysg. 2001. Gwybodaeth ar gael o: Ffôn: 0808 808 0123; Gwefan: www.rnid.org.uk

**Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001. £7.50 a Nodiadau Esboniad ar y Ddeddf. £6.00. Ar gael o'r Llyfrfa; Gwefan:** www.hmso.gov.uk/acts.htm

**Cylchlythyr 3/99 Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Medi '99 – diwygiwyd 2001) – Cefnogi Disgyblion a Chynhwysiant Cymdeithasol.** Ar gael o:Yr Is-adran Cymorth Disgyblion 2, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ. Ffôn: 029 20823835 Gwefan: dysgu.cymru.gov.uk

**Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 34/97 (Rhagfyr 97) – Cefnogi Disgyblion gydag Anghenion Meddygol. Ar gael o:** Is-adran Rheolaeth Ysgolion 1a, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ. Ffôn: 029 20826068 Gwefan: dysgu.cymru.gov.uk

**Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 03/02 (Ionawr 02) – Safonau Adeiladu ar gyfer Adeiladau Ysgol yng Nghymru. Ar gael o:** Yr Is-adran Rheolaeth Ysgolion 1a, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ. Ffôn: 029 20826068 Gwefan: dysgu.cymru.gov.uk

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Anghenion Addysgol Arbennig – Cod Ymarfer ar gyfer Cymru. (Ionawr 2002). Ar gael o:** Yr Is-adran Cymorth Disgyblion 1, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ. Ffôn: 029 20826081 Gwefan: dysgu.cymru.gov.uk

**Gwefannau defnyddiol:**

**BECTA:** British Educational Communications and Technology Agency www.becta.org.uk

Becta yw prif asiantaeth y Llywodraeth mewn perthynas â defnydd TGCh mewn addysg. Mae Becta yn chwarae rhan hanfodol o ran helpu i wneud y gorau o'r manteision y gall defnydd TGCh ei roi i bob athro/athrawes a dysgwr. Prif nod Becta yw pontio datblygiadau addysgol a thechnolegol a chymunedau. Mae Becta hefyd yn ceisio:

- Cloriannu arfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)
- Cefnogi defnydd presennol TGCh
- Archwilio technolegau newydd a'r addysgu cysylltiedig.

**Gwefan Cynhwysiant:** http://inclusion.ngfl.gov.uk/
Mae'r wefan hon yn darparu catalog rhad ac am ddim o adnoddau i athrawon proffesiynol, dysgwyr, rhieni a gofalwyr. Mae'r adnoddau yn cynnwys cyhoeddiadau, meddalwedd, caledwedd, canllawiau a chysylltiadau â mudiadau eraill i gynorthwyo byw a dysgu'n annibynnol.

**Y Comisiwn Hawliau Anabledd:** www.drc-gb.org
Comisiwn annibynnol yw CHA, wedi'i sefydlu i helpu sicrhau hawliau sifil i bobl ag anableddau. Mae'r CHA yn gweithredu i ddileu gwahaniaethu yn erbyn pobl ag anableddau; hybu cyfleoedd cyfartal i bobl ag anableddau; hybu arfer da o ran ymdriniaeth pobl ag anableddau a rhoi cyngor i'r Llywodraeth ar ymarferoldeb deddfwriaeth anabledd.

**ACCAC:**Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru. www.accac.org,uk

**QCA:** Yr Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm yn Lloegr. www.nc.uk.net

**ATODIAD B**

**HELP A GWYBODAETH BELLACH**

**NID YW'R RHESTR HON YN CYNNWYS POPETH**

**Gwasanaethau Lleol:**

- Mae gan lawer o awdurdodau lleol swyddogion mynediad sy'n gallu rhoi cyngor am faterion mynediad.

- Gall gwasanaethau ymgynghorol a chefnogi cwricwlwm AALl fod yn ffynhonnell cyngor am strategaethau a thechnegau addysgu pwnc-berthynol neilltuol a deunyddiau cwricwlwm.
  Gall gwasanaethau cefnogi roi cyngor i athrawon (e.e. am dechnegau a strategaethau addysgu, trefniadaeth a rheolaeth dosbarth; deunyddiau cwricwlwm a datblygiad cwricwlwm).

- Mae gwasanaethau cefnogi AAA yr AALl yn cynnwys athrawon arbenigol ar gyfer disgyblion syd â namau clyw, golwg, lleferydd ac iaith; athrawon sy'n darparu gwasanaethau cefnogi addysgu ac ymddygiad mwy cyffredinol; cynghorwyr; seicolegwyr addysgol; ac ymgynghorwyr neu athrawon sydd â gwybodaeth am dechnoleg gwybodaeth ar gyfer plant ag anghenion arbennig. Byddant yn gallu rhoi cyngor arbenigol am yr holl amrediad o faterion mynediad sydd yn berthynol i anableddau neilltuol.

- Mae gweithwyr iechyd proffesiynol fel therapyddion iaith a lleferydd, therapyddion galwedigaethol a ffisiotherapyddion, yn ogystal â meddygon a'r nyrs ysgol, hefyd yn rhoi cyngor a chefnogaeth i blant ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau a gallant, efallai, roi cyngor am amrywiaeth o faterion mynediad.

- Archwilwyr/Ymgynghorwyr Mynediad ar Y Gofrestr Genedlaethol o Ymgynghorwyr Mynediad (www.nrac.org.uk) a'r Gymdeithas Mynediad (Access Association).

**Mudiadau Gwirfoddol:**

**Action for Sick Children**
Yn darparu gwybodaeth i helpu rhieni ymdopi â, a pharatoi ar gyfer, gwahanol agweddau o ofal iechyd plant. Mae eu gwaith hefyd yn amcanu at wella gwasanaethau ac agweddau tuag at driniaeth plant gwael pan fyddant yn sâl. Ffôn: 020 7843 6444
www.actionforsickchildren.org

**Advisory Centre for Education (ACE)**
Mae ACE yn ganolfan gynghori annibynnol i rieni, sy'n cynnig gwybodaeth am addysg wladol yng Nghymru a Lloegr i blant 5 – 16 oed.Gallant roi cyngor am Anghenion Addysgol Arbennig. Ffôn: 020 7354 8318 www.ace-ed.org.uk

**AFASIC**
Afasic yw'r elusen yn y DU sy'n cynrychioli plant a phobl ifanc sydd â namau cyfathrebu, yn gweithio i'w cynnwys mewn cymdeithas ac yn cefnogi eu rhieni a'u gofalwyr. Ffôn: 020 7480 9410 www.afasic.org.uk

**Cymdeithas Spina Bifida a Hydroceffalws/ Association for Spina Bifida and Hydrocephalus**
Mae ASBAH yn rhoi cyngor a chefnogaeth ymarferol i bobl sydd â Spina Bifida a Hydroceffalws, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Ffôn: 01733 555988 www.asbah.org

**Autism Cymru**
Mae Autism Cymru yn hybu sefydliad gwasanaethau o ansawdd uchel i bobl ag anhwylder sbectrwm awtistig yng Nghymru. Ffôn: 01970 639454 www.autismcymru.co.uk

**Bobath**
Mae mudiad Bobath yn arbenigo mewn triniaeth parlys yr ymennydd a chyflyrau niwrolegol caffaeledig mewn plant ac oedolion. Ffôn: 029 20 522 600 www.bobath.org.uk

**Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain / British Deaf Association**
Yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf, cynghori, llinell gymorth, eiriolaeth gymunedol a gwasanaethau ieuenctid. Ffôn: 029 2030 2216 www.britishdeafassociation.org.uk

**Cymdeithas Dyslecsia Prydain / British Dyslexia Association**
Yn cynnig cyngor, gwybodaeth a chymorth i deuluoedd, gweithwyr proffesiynol ac unigolion dyslecsig. Rydym yn gweithio i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o dyslecsia, ac i achosi newid. Ffôn: 0118 966 2677 www.bda-dyslexia.org.uk

**Sefydliad Anawsterau Dysgu Prydain / British Institute of Learning Disabilities**
Mae BILD yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau i gefnogi dysgu i weithwyr proffesiynol, staff gofal, defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd. Ffôn: 01562 723010
www.bild.org.uk

**Canolfan Amgylcheddau Hygyrch / Centre for Accessible Environments**
Gweler para 3.22 o'r Canllawiau. Ffôn: 020 7357 8182; Ffacs: 020 735 8183; e-bost: info@cae.org.uk; gwefan: www.cae.org.uk

**Centre for Studies on Inclusive Education (CSIE)**
Mae'n rhoi gwybodaeth a chyngor am addysg gynhwysol a materion cysylltiedig. Ffôn: 0117 923 8450/ 0117 344 4007. www.inclusion.org.uk

**Plant yng Nghymru**
Rydym yn amcanu i hybu buddion pant, pobl ifanc a'u teuluoedd yng Nghymru a chymryd camau i adnabod a diwallu eu hanghenion. Ffôn: 029 2034 2434
**www.childreninwales.org.uk**

**Cyswllt â Theulu Cymru / Contact a Family Wales**
Yn gallu rhoi gwybodaeth am dros 1,000 o syndromau ac anhwylderau prin ac yn gallu rhoi teuluoedd mewn cysylltiad â'i gilydd. Ffôn: 029 2044 9569
www.cafamily.org.uk/wales

**Ymddiriedolaeth Ffibrosis Cystig / Cystic Fibrosis Trust**
Mae'r Ymddiriedolaeth Cystic Fibrosis yn ariannu ymchwil feddygol a gwyddonol gyda'r bwriad o ddeall, trin a gwella Cystic Fibrosis. Mae hefyd yn amcanu at sicrhau bod pobl sydd â CF yn derbyn y gofal a'r gefnogaeth gorau posib ym mhob agwedd o'u bywydau. Ffôn: 020 8464 7211 www.cftrust.org.uk

**Deafsign**
Yn amcanu at roi i bobl fyddar a'r rhai sy'n clywed y modd o gyflawni eu potensial drwy wasanaethau gwybodaeth, rhaglenni hyfforddi a chefnogaeth un i un. Ffôn: 01642 580505
www.deafsign.com

**Diabetes UK Cymru**
Yn darparu gwasanaeth cynhwysfawr dwyieithog i bobl sydd â diabetes, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a grwpiau gwirfoddol lleol. Ffôn: 029 2066 8276
www.diabetes.org.uk/cymru

**Tîm Cynghori ac Adnoddau Anabledd / Disability Advisory and Resource Team**
Ym amcanu at helpu pobl ag anableddau i ddefnyddio addysg gymunedol. Yn cynnig cyngor, help ymarferol ac amrywiaeth o ddosbarthiadau ar draws Caerdydd. Ffôn: 02920 644696

**Y Comisiwn Hawliau Anabledd / Disability Rights Commission**
Mae'r CHA yn gweithio i ddileu gwahaniaethu yn erbyn pobl ag anableddau; hybu cyfleoedd cyfartal i bobl ag anableddau; hybu arfer da o ran ymdriniaeth pobl ag anableddau ac i roi cyngor i'r Llywodraeth ar ymarferoldeb deddfwriaeth anabledd. Ffôn: 08457 622 633 www.drc-gb.org

**Disabled Living Foundation**
Yn helpu i roi'r dewisiadau gorau posib i bobl sy'n defnyddio cyfarpar i fyw bywyd mwy annibynnol. Ffôn: 020 7289 6111 www.dlf.org.uk

**Anabledd Cymru / Disability Wales**
Y mudiad cenedlaethol i grwpiau anabledd yng Nghymru sy'n gweithio i hybu hawliau, cynhwysiant, cydraddoldeb a chefnogaeth i'r holl bobl ag anableddau yng Nghymru. Ffôn: 029 2088 7325 www.dwac.demon.co.uk

**Cymdeithas Syndrom Down / Down's Syndrome Association**
Mae'r Gymdeithas Syndrom Down yn bodoli i gefnogi pobl sydd â Syndrom Down, eu teuluoedd a'u gofalwyr yn ogystal â rhoi gwybodaeth i'r rhai sydd yn cymryd diddordeb proffesiynol. Ffôn: 029 2052 2511 www.dsa-uk.com

**Dyspraxia Foundation**
Yn amcanu i gefnogi unigolion a theuluoedd wedi'u heffeithio gan dyspracsia, i hybu cyfleusterau diagnostig a thriniaeth well i'r rhai sy'n dioddef o dyspracsia, i helpu gweithwyr proffesiynol mewn addysg ac iechyd i gynorthwyo'r rhai sydd â Dyspracsia a hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o dyspracsia. Ffôn: 01462 454 986 www.dyspraxiafoundation.org.uk

**Dyscovery Centre**
Mae'r Ymddiriedolaeth yn amcanu at gynyddu'r gefnogaeth i'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gydag unigolion sydd â Dyspracsia a chyflyrau perthynol. Ffôn: 029 2062 8222 www.dyscovery.co.uk

**Epilepsy Action**
Epilepsy Action yw enw gweithredol Cymdeithas Epilepsi Prydain / British Epilepsy Association. Ffôn: 0808 800 5050 www.epilepsy.org.uk

**Epilepsi Cymru**
I helpu pobl yng Nghymru ag epilepsi, ynghyd â'u teuluoedd a'u gofalwyr. Ffôn: 01745 584444 www.epilepsy-wales.co.uk

**Family Fund Trust**
Ein pwrpas yw lleddfu'r pwysau ar deuluoedd yn y DU sy'n gofalu am blant ag anableddau difrifol o dan 16 oed, drwy roi grantiau a gwybodaeth sy'n berthynol i ofal y plentyn. Ffôn: 01904 621115 www.familyfundtrust.org.uk

**Home Education Advisory Service**
Mae HEAS yn cynnig gwybodaeth am addysgwyr yn y cartref yn cynnwys cyngor am ddeunyddiau addysgol, adnoddau, arholiadau TGAU, anghenion addysgol arbennig, technoleg gwybodaeth, materion cyfreithiol a llunio cwricwlwm. Mae HEAS yn cyhoeddi amrywiaeth o daflenni a'r Llawlyfr Addysg yn y Cartref. Ffôn: 01707 371854 www.heas.org.uk

**Hyperactive Children's Support Group**
Y prif gefnogwyr ym Mhrydain o ymdriniaeth ddeietegol tuag at broblem gorfywiogrwydd mewn plant, yn helpu teuluoedd ymdopi â'u plant gorfywiog. Ffôn: 01243 551313 www.hacsg.org.uk

**ICAN (Elusen Addysgol Genedlaethol i Blant ag Anawsterau Lleferydd ac Iaith)**
Mae I CAN yn helpu plant yn eu hysgolion arbennig eu hunain, meithrinfeydd a chanolfannau o fewn ysgolion lleol a thrwy ddarparu hyfforddiant a gwybodaeth i rieni, athrawon a therapyddion. Ffôn: 0870 010 4066 www.ican.org.uk

**Panel Annibynnol ar gyfer Cyngor Addysg Arbennig / Independent Panel for Special Education Advice (IPSEA)**
Mae IPSEA yn gallu rhoi cyngor annibynnol am apelio i'r Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig, yn cynnwys cynrychioli pan fo angen. Ffôn: 01394 380 518 Llinell Gymorth: 0800 018 4016 www.ipsea.org.uk

**Cyngor Addysg Arbennig Annibynnol / Independent Special Education Advice (ISEA)**
Ffôn: 0131 665 7080 Llinell Gymorth: 0131 454 0096

**MENCAP Cymru**
Mae MENCAP yn cynnig gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i bobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd a'u gofalwyr. Ffôn: 029 2074 7588 www.mencap.org.uk

**MIND Cymru (Cymdeithas Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl)**
Yn cynnig cyngor a gwybodaeth i'r rhai sy'n dioddef poendod meddwl a'u teuluoedd/gofalwyr. Ffôn: 029 2039 5123 www.mind.org.uk/mindcymru

**Motability**
Mae Motability yn helpu pobl anabl a'u teuluoedd i fedru symud o gwmpas yn well. Ffôn: 01279 635666 www.motability.co.uk

**Cymdeithas Genedlaethol Canolfannau Cynghori (CAB)**
Yn rhoi cyngor annibynnol, cyfrinachol, diduedd, am ddim. Ffôn: 020 7833 2181 www.nacab.org.uk

**National Association for Able Children in Education (NACE)**
Mae NACE yn cynnig cefnogaeth i weithwyr addysg proffesiynol i wella ymarfer dosbarth i ddisgyblion abl, galluog a dawnus, gyda'r bwriad y bydd pob disgybl yn elwa. Ffôn: 02865 861 879 www.nace.co.uk

**National Association for the Education of Sick Children (NAESC)**
Mae NAESC yn gweithio yn unig i wella cyfleoedd addysgol ar draws y DU i bob plentyn y dryswyd eu haddysg oherwydd salwch. Ffôn: 013 3263 8586 www.sickchildren.org.uk

**National Association of Special Educational Needs (NASEN)**
Mae NASEN yn hybu buddion y bobl ag anghenion dysgu eithriadol a/neu anableddau, yn rhoi fforwm i'r rhai sy'n ymwneud ag anghenion dysgu eithriadol a/neu anableddau ac yn cyfrannu tuag at lunio a datblygu polisi yn y maes. Ffôn: 01827 311500 www.nasen.org.uk

**Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth (Cymru) / National Autistic Society (Wales)**
Mae NAS yn rhoi addysg, triniaeth, gofal a lles i bobl ag awtistiaeth a chyflyrau cysylltiedig. Ffôn: 01792 815915 www.nas.org.uk

**Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar / National Deaf Children's Society (NDCS)**
Mae NCDS yn cefnogi plant byddar, pobl ifanc byddar a'u teuluoedd i oresgyn sialensau plentyndod byddar. Rydym yn bodoli i roi'r cychwyn gorau iddynt, yn darparu'r wybodaeth, y gefnogaeth a'r cyfleoedd i ymrymuso pob plentyn byddar. Ffôn: 02920 373474 www.ndcs.org.uk

**Parents for Inclusion**
Mae rhieni yn helpu rhieni er mwyn i blant ag anableddau gael dysgu, gwneud ffrindiau a chael llais mewn ysgolion cyffredin. Ffôn: 020 7735 7735. Llinell Gymorth: 020 7582 5008. ww.parentsforinclusion.org

**PHAB Cymru**
Yn helpu i hybu ac annog pobl ag anableddau a phobl heb anableddau i ddod at ei gilydd ar lefel gyfartal, er mwyn eu cynnwys yn gyfan gwbl yn y gymuned ehangach. Ffôn: 029 2075 0700 www.phab.org.uk

**Present** (a adwaenid gynt fel National Association for the Education of Sick Children) 18 Victoria Park Square, Bethnal Green, London, E2 9PF. Ffôn: 020 8980 8523 Gwefan: http://www.sickchildren.org.uk

**Pre-School Learning Alliance**
Yn ymrwymedig i gefnogi gwaith ysgolion meithrin cymunedol, drwy gyrsiau hyfforddi, systemau sicrhau ansawdd, ymweliadau lleol gan ymgynghorwyr medrus, ystod o gyhoeddiadau defnyddiol a deunyddiau eraill, cyngor a llinell gymorth. Ffôn: 020 7833 0991 www.pre-school.org.uk

**RNIB Cymru**
Yn darparu gwasanaethau mor effeithiol â phosibl i bobl ddall a rhannol ddall ar draws Cymru.
Ffôn: 029 2033 30334 www.rnib.org.uk/services/cymru

**SCOPE** Cwmpas Cymru
Mae gwasanaethau addysg Scope yn rhoi hyfforddiant a chefnogaeth i blant ac oedolion sydd â pharlys yr ymennydd, yn ogystal â rhieni a chynorthwywyr. Ffôn: 029 2046 1703 www.scope.org.uk

**SCOVO** Prosiect Dewisiadau Bywyd
Corff ymbarél dros Gymru yw SCOVO, yn helpu grwpiau a mudiadau gwirfoddol yng Nghymru, yn hybu hawliau pobl ag anableddau dysgu i gael bywydau sy'n cael eu gwerthfawrogi. Ffôn: 01554 746782 www.scovo.demon.co.uk

**SENSE Cymru**
Yn cynnig cyngor, grwpiau a gwasanaethau i helpu pobl â nam ar eu synhwyrau, o bob oed. Ffôn: 029 2045 7641 www.senco.org.uk

**SNAP Cymru**
Mae SNAP Cymru yn darparu Gwasanaethau Cefnogi Rhieni Annibynnol yng Nghymru, yn rhoi gwybodaeth a chefnogaeth i deuluoedd plant a phobl ifanc sydd ag neu a allai fod ag anghenion addysgol arbennig. Ffôn: 029 2038 8776 www.snapcymru.org

**Cymdeithas Sglerosis Twberus Prydain / Tuberous Sclerosis Association of GB**
Yn cefnogi dioddefwyr, yn hybu ymwybyddiaeth ac yn chwilio am achosion Sglerosis Twberus a rheolaeth orau bosibl y cyflwr. Ffôn: 01527 871898 www.tuberous-sclerosis.org

**ATODIAD C**

**ARCHWILIAD MYNEDIAD I YSGOLION**

**Adnabod Rhwystrau i Fynediad: Rhestr Wirio**

Mae tair adran i'r rhestr wirio hon. Yn yr adran gyntaf, gofynnir i chi ystyried a yw'r amgylchedd yn yr ysgol ble'r ydych chi'n gweithio wedi cael ei lunio i ddiwallu anghenion yr holl ddisgyblion, yn cynnwys y rhai ag AAA a/neu anabledd. Dylid defnyddio'r ail a'r drydedd adran i adnabod sut mae eich ysgol chi yn cyflwyno ei ddeunyddiau cwricwlwm ac ysgrifenedig mewn fformatau eraill ac i roi darlun cliriach o'r rhwystrau i fynediad sy'n bodoli yn niwylliant yr ysgol. Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth.

**Adran 1**

| **Cwestiwn** | **Le** | **Na** |
|---|---|---|
| • Ydy maint a threfn y lleoedd: yn cynnwys yr holl gyfleusterau academaidd, chwaraeon, chwarae; cymdeithasol; y dosbarthiadau; y neuadd; cantîn, llyfrgell, y gampfa a chyfleusterau chwaraeon allanol, meysydd chwarae ac ystafelloedd cyffredin yn caniatáu mynediad i bob disgybl? | | |
| • Ydy disgyblion sy'n defnyddio cadeiriau olwyn yn gallu symud o gwmpas yr ysgol heb wynebu rhwystrau i fynediad tebyg i'r rhai a achosir gan ddrysau, stepiau a grisiau, cyfleusterau toiled a chawod? | | |
| • Ydy'r llwybrau teithio o amgylch safle 'r ysgol a threfniadau parcio yn ddiogel, y llwybrau'n rhesymegol a chydag arwyddion da? | | |
| • Oes systemau brys a systemau gwagio ysgol wedi cael eu sefydlu i roi gwybod i BOB disgybl, yn cynnwys disgyblion ag AAA ac anableddau, yn cynnwys larymau ag elfennau gweledol a chlywedol? | | |
| • A ddefnyddir arwyddion heb fod yn weledol, i gynorthwyo pobl i ddefnyddio adeiladau, yn cynnwys lifftiau â botymau cyffyrddadwy? | | |
| • A ellid ystyried fod addurniadau'r ysgol yn achosi dryswch neu benbleth i ddisgyblion anabl â nam ar eu golwg, awtistiaeth neu epilepsi? | | |
| • A ellid ystyried bod yr arwyddion yn peri dryswch neu'n annigonol? | | |
| • Ydy'r mannau y dylai disgyblion gael mynediad atynt wedi'u goleuo'n dda? | | |
| • Ydy mannau storio yn rhwystro disgyblion ag anableddau rhag cael mynediad at gymhorthion a chyfarpar? | | |
| • Oes camau yn cael eu cymryd i atal allgáu pobl ag anableddau sy'n effeithio ar eu clyw a'u golwg o ddigwyddiadau? e.e. ystyried acwsteg ystafell, cyfarpar swnllyd a chyflwyno deunydd. | | |
| • Ydy'r dodrefn a'r offer yn cael eu dewis, eu haddasu a'u lleoli'n briodol? | | |

**Adran 2**

| Cwestiwn | Le | Na |
|---|---|---|
| • Ydych chi'n sicrhau bod athrawon a chynorthwywyr dosbarth wedi cael yr hyfforddiant angenrheidiol i addysgu a chefnogi disgyblion anabl? | | |
| • Ydych chi'n gwneud y gorau o gynorthwywyr dysgu? | | |
| • Ydy'r dosbarthiadau wedi'u trefnu yn y ffordd orau bosibl i ddisgyblion anabl? | | |
| • Ydy'r gwersi yn ymateb i amrywiaeth y disgyblion? | | |
| • Ydy'r gwersi yn gyraeddadwy i bob disgybl? | | |
| • Ydy gwersi yn cynnwys gwaith i'w wneud gan unigolion, parau, grwpiau a'r dosbarth cyfan? | | |
| • Ydy'r holl ddisgyblion yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol, cerdd a drama? | | |
| • Oes amrywiaeth o weithgareddau, yn cynnwys trafodaeth, cyflwyniad llafar, ysgrifennu, tynnu llun, datrys problemau, defnydd llyfrgell, deunyddiau clyweledol, tasgau ymarferol a thechnoleg gwybodaeth? | | |
| • Ydy staff yn cydnabod ac yn rhoi ystyriaeth i'r ymdrech feddyliol a wneir gan rai disgyblion anabl e.e. wrth ddarllen gwefusau? | | |
| • Ydy staff yn cydnabod ac yn ystyried yr amser ychwanegol sydd ei angen ar rai disgyblion anabl wrth ddefnyddio offer ar gyfer gwaith ymarferol? | | |
| • Ydy staff yn darparu dulliau amgen o roi mynediad at brofiad neu ddealltwriaeth i rai disgyblion anabl nad ydynt yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau neilltuol e.e. rhai dulliau ymarfer mewn addysg gorfforol? | | |
| • Ydych chi'n rhoi mynediad at dechnoleg wybodaeth briodol i ddisgyblion ag anableddau? | | |
| • Ydy teithiau ysgol, yn cynnwys teithiau tramor, yn agored i bob disgybl waeth beth fo'u cyrhaeddiad na'u nam? | | |
| • Ydy staff, llywodraethwyr a disgyblion yn derbyn hyfforddiant ac addysg mewn materion cydraddoldeb anabledd? | | |
| • Ydy pawb yn teimlo eu bod yn cael croeso? | | |
| • A oes disgwyliadau uchel ar gyfer y disgyblion? | | |
| • Ydy staff, llywodraethwyr a disgyblion yn rhannu athroniaeth gynhwysol? | | |
| • Ydy'r holl ddisgyblion yn cael eu gwerthfawrogi'n gydradd? | | |
| • Ydy staff yn ceisio dileu'r holl rwystrau i ddysgu a chymryd rhan? | | |

**Adran 3**

| Cwestiwn | Le | Na |
|---|---|---|
| • Ydych chi'n darparu gwybodaeth mewn print bras, ar dâp sain neu mewn Braille i ddisgyblion neu ddarpar disgyblion a allai gael anhawster gyda'r ffurfiau arferol o wybodaeth ysgrifenedig? | | |
| • Ydych chi'n sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chyflwyno i grwpiau mewn modd sy'n gyfeillgar i bobl ag anableddau sy'n effeithio ar eu golwg e.e. drwy ddarllen sleidiau uwch daflunydd yn uchel a disgrifio diagramau? | | |
| • Oes gennych chi gyfleusterau i gynhyrchu gwybodaeth ysgrifenedig mewn ffontiau o wahanol faint? | | |
| • Ydych chi'n defnyddio canllawiau RNIB am gynhyrchu gwybodaeth ysgrifenedig mewn fformatau dealladwy? | | |
| • Ydych chi'n sicrhau bod staff yn gyfarwydd â'r technolegau a'r ymarfer a ddatblygwyd i helpu pobl ag anableddau? | | |

**Creu Cynllun Mynediad**

Dyma esiampl o gynllun y gallai gweithgor cynllunio ysgol ei gynhyrchu ar ôl adolygu'r cynlluniau cyfredol (yn neilltuol, adnewyddu trefniadau derbyn a pholisi AAA), edrych ar ddewisiadau am wella mynediad o fewn y trefniadau presennol a cynnal archwiliad o safle'r ysgol  mewn perthynas â mynediad. Dylai'r gweithgor cynllunio barhau i gyfarfod yn rheolaidd i fonitro gweithrediad y cynllun ac i gadw anghenion mynediad yr ysgol dan adolygiad.

| | **Targedau** | **Strategaethau** | **Canlyniad** | **Amserlen** | **Nodau a gyflawnwyd** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Tymor Byr** | Argaeledd deunydd ysgrifenedig mewn fformatau amgen. | Mae'r ysgol yn ymgyfarwyddo ei hun â'r gwasanaethau sydd ar gael drwy'r AALl ar gyfer trosi gwybodaeth ysgrifenedig i fformatau amgen. | Os oes angen, gall yr ysgol ddarparu gwybodaeth ysgrifenedig mewn fformatau amgen. | Tymor 3 2003/4 | Gwelliant yng nghyflwyniad gwybodaeth i ddisgyblion anabl. |
| **Tymor Canolig** | Cynnwys cynlluniau lliw priodol wrth adnewyddu er lles plant â nam ar eu golwg a gosod llenni. | Ceisio cyngor gwasanaeth cefnogi synhwyrau AALl a RNIB ar gynlluniau lliw a llenni priodol. | Gwneud sawl dosbarth yn fwy cyraeddadwy i blant â nam ar eu golwg. | Tymor 1 2004/5 | Mynediad ffisegol yr ysgol wedi cynyddu |
| | Hyfforddi athrawon ar wahaniaethu'r cwricwlwm | Wedi archwiliad yr ysgol yn penderfynu y byddai athrawon yn elwa o hyfforddiant am wahaniaethu'r cwricwlwm | Mae athrawon yn gallu diwallu anghenion plant anabl yn llawnach o ran mynediad at y cwricwlwm. | Tymor 2 2004/5 | Cynnydd yn y mynediad at y Cwricwlwm Cenedlaethol. |

| | Targedau | Strategaethau | Canlyniad | Amserlen | Nodau a gyflawnwyd |
|---|---|---|---|---|---|
| **Tymor Hir** | Ysgol yn cynllunio gwella mynediad i fannau penodedig dros flynyddoedd ariannol olynol. Ysgol yn penderfynu pa rai o'i mynedfeydd a'i hallanfeydd fydd yn cael blaenoriaeth, ac yn ffitio rampiau a chanllawiau iddynt oll. | Adolygu faint o adnoddau sydd ar gael o'r gyllideb ddirprwyedig a thrafod arian o'r rhaglen cyfalaf ysgolion gyda'r AALl | Dros gyfnod 3 blynedd bydd mynedfeydd, bloc gwyddoniaeth a llyfrgell yr ysgol i gyd â mynediad llawn | Tymor 3 2005/6 | Mynediad ffisegol yr ysgol wedi cynyddu. |

ISBN 0 7504 3146 6
Dyluniwyd gan CartoGraffeg G/499/02-03
Mawrth 2003
INA-15-07-178
© Hawlfraint y Goron 2003
Cysodwyd gan y Gwasanaethau Prosesu Testu